



Cronfa Dreftadaeth y Loteri

Dosbarthiad Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol
Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth
i ben 31 Mawrth 2009

Cronfa Dreftadaeth y Loteri

Dosbarthiad Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol
Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth
i ben 31 Mawrth 2009

Adroddiad Blynyddol

Cyflwynir yr adroddiad blynyddol hwn yn unol ag adran 34(3) Deddf
y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros
Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Cyfrifon Blynyddol

Cyflwynir y datganiad cyfrifon hwn, a'r adroddiad ar hyn, gan y Rheolwr
ac Archwilydd Cyffredinol, yn unol ag adran 35(5) Deddf y Loteri
Genedlaethol ac ati 1993.

Gorchmynnwyd ei argraffu gan Dŷ'r Cyffredin ar 15 Gorffennaf 2009
Cyflwynwyd gan Weinidogion Yr Alban gerbron Senedd Yr Alban
16 Gorffennaf 2009
Cyflwynwyd gerbron Cynulliad Gogledd Iwerddon 7 Medi 2009

© Hawlfraint y Goron 2009

Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon (ac eithrio'r Arfau Brenhinol a logos adrannol neu logos asiantaeth eraill) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyhyd â'i fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir ac nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod bod y deunydd yn hawlfraint y Goron a nodi teitl y ddogfen.

Lle rydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Ar gyfer unrhyw ddefnydd arall o'r deunydd hwn ysgrifennwch at Office of Public Sector Information, Information Policy Team, Kew, Richmond, Surrey, TW9 4DU neu anfonwch neges e-bost at: licensing@opsi.gov.uk

ISBN: 9780102960044

Cynnwys

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu	2
Sylwadau'r rheolwyr	2
Adolygiad ariannol	8
Adroddiad tâl	11
Datganiad o gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Prif Weithredwr	13
Datganiad ar reolaeth fewnol	14
Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd a Senedd Yr Alban	17
Cyfrif Incwm a Gwariant	19
Datganiad o Enillion a Cholledion Cydnabyddedig	19
Mantolen	20
Datganiad Llif Arian	21
Cysoni Llif Arian Net i Symudiad mewn Cronfeydd Net	21
Nodiadau i'r Cyfrifon	22
Cyfarwyddiadau Polisi	33
Perfformiad Corfforaethol	41
Cynnydd ar brosiectau dros £5miliwn	43
Grantiau a ddyfarnwyd dros £100,000	46
Monitro cyflogaeth	57
Cydnabyddiaethau	

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

Sylwadau'r rheolwyr

Gwybodaeth gefndir

Caiff Cronfa Goffa'r Dreftadaeth

Genedlaethol (CGDG neu 'y Gronfa') ei mireinio a'i gweinyddu gan gorfforaeth o'r enw Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol, sy'n cynnwys Cadeirydd ac nid mwy na 14 o aelodau eraill a benodwyd gan y Prif Weinidog. Sefydlwyd y Gronfa ar 1 Ebrill, 1980 gan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1980 ('Deddf 1980') mewn olyniaeth i'r Gronfa Dir Genedlaethol fel coffâd i'r rheiny sydd wedi rhoi eu bywydau ar gyfer y Deyrnas Unedig. Cafodd pwerau a chyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr eu hymestyn gan ddarpariaethau Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 ('Deddf 1993') a Deddf y Loteri Genedlaethol 1998 ('Deddf 1998').

O dan Ddeddf 1993, daeth Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn gyfrifol am ddosbarthu'r gyfran honno o enillion y Loteri Genedlaethol a glustnodir i'r dreftadaeth. Rhaid i Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol baratoi cyfrifon ar wahân ar gyfer derbyn a dyrannu cymorth grant ac ar gyfer eu gweithrediad yn ddosbarthwr cyllid y Loteri Genedlaethol. Mae Ymddiriedolwyr wedi dewis cyfeirio at y cyllid fel Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ar gyfer symiau a ddyrannwyd o dan ddarpariaethau Deddf 1980 ac fel Cronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer y derbyniadau o Ddeddf 1993.

O dan adran 21(1) Deddf 1993, cynhelir cronfa a elwir yn Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (CDLG) o dan reolaeth a goruchwyliaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Caiff pob swm a geir gan ddaliwr trwydded y Loteri Genedlaethol o dan adran 5(6) ei dalu i'r Ysgrifennydd Gwladol a'i roi ganddo yntau yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol. Mae Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn ymgeisio i'r CDLG am gyllid i dalu grantiau a thalu costau gweinyddu.

O dan adran 22 Deddf 1993, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y

Cyfryngau a Chwaraeon yn dyrannu 20% o'r swm a delir i mewn i'r CDLG ar gyfer gwariant ar y dreftadaeth genedlaethol, neu'n gysylltiedig â hi. Mae Adran 23(3) yn sefydlu mai Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yw dosbarthwyr y gyfran honno. Lleihawyd y dyraniad canran yn ddilynol i 16⅔% ym mis Hydref 1997 ar ôl i'r Llywodraeth greu'r Gronfa Cyfleoedd Newydd (sef y Gronfa Loteri Fawr bellach).

Paratowyd y cyfrifon hyn mewn ffurf a gyfarwyddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon gyda chaniatâd Trysorlys EM yn unol ag adran 35(3) Deddf 1993.

Prif weithgareddau

O dan adran 3 Deddf 1980, gall

Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol wneud grantiau a benthyciadau allan o'r Gronfa at ddiben cael, cynnal neu ddiogelu:

- a) unrhyw dir, adeilad neu strwythur sydd, ym marn yr Ymddiriedolwyr, o ddiddordeb golygfaol, hanesyddol, esthetig, archaeolegol, pensaernïol neu wyddonol eithriadol;
- b) unrhyw wrthrych sydd, yn eu barn hwy, o ddiddordeb hanesyddol, artistig neu wyddonol eithriadol;
- c) unrhyw gasgliad neu grŵp o wrthrychau, sy'n gasgliad neu grŵp sydd yn ei gyfanrwydd o ddiddordeb hanesyddol, artistig neu wyddonol eithriadol yn eu barn hwy.

Mae Adran 4 Deddf 1993 yn ymestyn pwerau'r Ymddiriedolwyr i wella arddangosiad eitemau o ddiddordeb eithriadol i'r dreftadaeth genedlaethol drwy roi cymorth ariannol i adeiladu, trawsnewid neu wella unrhyw adeilad er mwyn darparu cyfleusterau a gynllunnir i hyrwyddo mwynhad y cyhoedd neu ddatblygu gwybodaeth y cyhoedd.

O dan Ddeddf 1997, gall yr Ymddiriedolwyr bellach gynorthwyo prosiectau sy'n anelu at gynyddu dealltwriaeth a mwynhad y cyhoedd o'r dreftadaeth ac anelu at

ddehongli a chofnodi agweddau pwysig ar hanes, hanes naturiol a thirwedd y genedl. Ar ôl ymgynghori ag ymgeiswyr posibl, cynghorwyr a chyrrff eraill, sefydlwyd mentrau newydd pellach – yn ymdrin â grantiau refeniw (i ehangu mynediad yn gyffredinol i'r dreftadaeth), yn ogystal ag ym meysydd archaeoleg, trefluniau, technoleg gwybodaeth ac addysg. Rhoddodd Deddf 1998 y pŵer i'r Ymddiriedolwyr ddirprwyo penderfyniadau am grantiau Loteri i staff a hefyd i bwyllgorau sy'n cynnwys rhai aelodau nad ydynt yn Ymddiriedolwyr.

Nodau

Mae gennym dri nod craidd ar gyfer Cronfa Dreftadaeth y Loteri (CDL), sy'n diffinio'n fras sut yr ydym yn ceisio gwella ansawdd bywyd drwy'r dreftadaeth. Dyma'r nodau craidd:

- diogelu treftadaeth amrywiol y DU er mwyn i genedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol ei chyrraedd a'i mwynhau;
- helpu mwy o bobl, ac amrywiaeth ehangach o bobl, i gymryd rhan yn eu treftadaeth a gwneud penderfyniadau yn ei chylch;
- helpu pobl i ddysgu am eu treftadaeth eu hunain a threftadaeth pobl eraill.

Fel sefydliad, ymgeisiwn i gyflawni cynildeb, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ym mhob peth a wnawn. Hefyd, mae eglurder, blaenoriaethu, doethineb, awdurdod cyfrifol ac atebolrwydd yn egwyddorion craidd i ni fel sefydliad. Maent yn llywio ein hymagwedd at ariannu, a'r modd y gweithiwn gyda chwsmeriaid a chydweithwyr. Ein nod yw cael ein hadnabod ym mha le bynnag y gweithiwn, a hynny drwy arfer a chyflwyniad cyson, a chynnal ar yr un pryd yr hyblygrwydd i ymateb i wahaniaethau ac anghenion trwy ein timau lleol ar draws y DU.

Offerynnau Ariannol

Mae Safon Adrodd Ariannol (FRS) 29 Offerynnau Ariannol Datgeliadau yn ei gwneud yn ofynnol i ddatgelu'r rôl a chwaraeodd offerynnau ariannol yn ystod y

cyfnod, yn creu neu'n newid y risgiau y mae endid yn eu hwynebu wrth gynnal ei weithgareddau. Mae offerynnau ariannol yn chwarae rhan fwy cyfyngedig o lawer o ran creu neu newid risg ar gyfer CGDG nag a fyddai'n nodweddiadol o'r cwmnïau rhestredig y mae FRS 29 yn bennaf berthnasol iddynt. Nid oes gan CGDG bwerau i fenthyg, ond gall fuddsoddi cyllid a ddeillir o gymorth grant. Cynhyrchir asedau a rhwymedigaethau ariannol gan weithgareddau gweithredol o ddydd i ddydd ac nid ystyrir eu bod yn newid y risgiau y mae'r sefydliad yn eu hwynebu.

Risg hylifedd

Yn 2008–09, roedd £208.2miliwn (95%) o incwm Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn deillio o'r Loteri Genedlaethol. Roedd gweddill yr incwm yn deillio o adenillion buddsoddiad o'r balans sy'n cael ei ddal gyda Chronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (CDLG) £9.9miliwn (4%), llog banc ac incwm amrywiol £1.8miliwn (1%). Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod bod eu hymrwymadau caled (h.y. contractau grant wedi'u llofnodi) a'u credydwyr eraill yn fwy na gwerth y cyllid yn yr CDLG ar 31 Mawrth 2009. Fodd bynnag, ystyria'r Ymddiriedolwyr nad yw Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn agored i risgiau hylifedd sylweddol gan eu bod yn fodlon y bydd ganddynt ddigon o adnoddau hylifol yn yr CDLG a'r banc i dalu pob cais tebygol am daliadau grant yn y blynyddoedd nesaf. Mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi sicrhau'r Ymddiriedolwyr y byddant yn parhau i gael cyfran o'r Loteri Genedlaethol hyd nes 2019. Mae Ymddiriedolwyr wedi pennu strategaeth hirdymor ar gyfer dyfarnu grantiau er mwyn sicrhau bod rhwymedigaethau Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn unol â'i hasedau, ac nad yw'n rhedeg allan o gyllid cyn 2019.

Risg Marchnad a risg Cyfradd Llog

Mae asedau ariannol Cronfa Dreftadaeth y Loteri wedi'u buddsoddi yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (CDLG), sy'n buddsoddi mewn band cul o asedau risg isel fel bondiau llywodraeth ac arian parod. Nid oes gan yr Ymddiriedolwyr

unrhyw reolaeth ar fuddsoddiad y cyllid hwn. Ar ddyddiad y fantolen, gwerth marchnad ein buddsoddiadau yn yr CDLG oedd £451.2miliwn. Yn y flwyddyn, fe wnaeth y cyllid yn yr CDLG ennill 3.72% ar gyfartaledd. Fodd bynnag, yn dilyn y newid yn 2007–08 yn y ffordd y dyrennir incwm buddsoddi gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, cyfartaledd yr adenillion i Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar y buddsoddiadau hyn oedd tua 2.1%. Caiff balansau arian parod, a dynnir i lawr o'r CDLG i dalu ymrwymadau grant a chostau gweithredu, eu dal mewn cyfrifon banc cyfradd newidiol mynediad sydyn, a oedd yn cario cyfradd llog o 3.5% ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn. Mae'r gostyngiad sydyn mewn cyfraddau llog marchnad wedi cael effaith ar adenillion, ond gan fod lle i gyfraddau ostwng ymhellach, mae'r risg yn fach. Y balans arian parod ar ddiwedd y flwyddyn oedd £4.1miliwn. Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod bod eu hadnillion ar yr CDLG yn llawer llai na'r adenillion a gafwyd o'u cyfrifon banc. Fodd bynnag, mae buddsoddiad cyllid y Loteri o dan reolaeth yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon sy'n nodi y dylai cyfradd adennill dymor hir yr CDLG fod yn uwch na chyfradd cyfrif banc. Ystyria'r Ymddiriedolwyr nad yw Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn agored i risgiau cyfradd llog sylweddol. Cyfraddau llog o ddim oedd gan asedau ariannol eraill a rhwymedigaethau ariannol Cronfa Dreftadaeth y Loteri.

	2008-09 £'000	2007-08 £'000
Balansau arian parod		
– sterling ar gyfraddau llog cyfnewidiol	4,105	11
– sterling ar gymysgedd o gyfraddau sefydlog	452,562	567,428
	456,667	567,439

Risg credyd

Mae dyledwyr Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn cynnwys rhagdaliadau ar brydlesi eiddo yn bennaf, balansau o fewn y llywodraeth ac un benthyciad i sefydliad treftadaeth.

Gyda chyd-ddosbarthwyr y Loteri y mae'r balansau o fewn y llywodraeth yn bennaf, ac ad-dalwyd pob un ohonynt erbyn amser llofnodi'r cyfrifon. Mae'r benthyciad i sefydliad treftadaeth i'w ad-dalu dros nifer o flynyddoedd er mwyn cynorthwyo llif arian y sefydliad. Nid ystyria Cronfa Dreftadaeth y Loteri bod risg sylweddol y bydd y sefydliad treftadaeth yn methu ad-dalu'r ddyled; cyfradd llog o ddim sydd i'r benthyciad. Nid ystyria'r Ymddiriedolwyr bod Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn agored i risg credyd sylweddol.

Risg arian tramor

Nid yw Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn agored i unrhyw risgiau arian tramor.

Asedau ariannol yn ôl categori

	2008-09 £'000	2007-08 £'000
Asedau yn unol â'r fantolen		
– benthyciadau a derbyniadau Rhagdaliadau a llog		
banc cronrus	659	678
Benthyciad	675	0
Dyledwr o fewn y llywodraeth	1,959	253
	3,293	931

Rhwymedigaethau ariannol yn ôl categori

	2008-09 £'000	2007-08 £'000
Rhwymedigaethau yn unol â'r fantolen		
– rhwymedigaethau ariannol eraill		
Ymrwymadau grant	593,131	660,367
Credydwyd Gweithredol	1,235	1,252
Credydwyd Eraill	334	332
Croniadau	677	1,239
	595,377	663,190

Gwerthoedd Teg

Nodir isod gymhariaeth, yn ôl categori, o werthoedd llyfr a gwerthoedd teg asedau a rhwymedigaethau ariannol Cronfa Dreftadaeth y Loteri ar 31 Mawrth 2009.

Asedau ariannol ar 31 Mawrth 2009

	Gwerth llyfr £'000	Gwerth teg £'000
Arian parod ¹	4,105	4,105
Buddsoddiadau ²	452,012	452,562
Dyledwyr ³	3,293	3,293
	459,410	459,960

Asedau ariannol ar 31 Mawrth 2008

	Gwerth llyfr £'000	Gwerth teg £'000
Arian parod	11	11
Buddsoddiadau	566,179	567,428
Dyledwyr	931	931
	567,121	568,370

Rhwymedigaethau ariannol ar 31 Mawrth 2009

	Gwerth llyfr £'000	Gwerth teg £'000
Ymrwymadau grant ⁴	593,131	593,131
Credydwyd gweithredol ⁵	1,235	1,235
Credydwyd eraill ⁵	334	334
Croniadau ⁵	677	677
	595,377	595,377

Rhwymedigaethau ariannol ar 31 Mawrth 2008

	Gwerth llyfr £'000	Gwerth teg £'000
Ymrwymadau grant	660,367	660,367
Credydwyd gweithredol	1,252	1,252
Credydwyd eraill	332	332
Croniadau	1,239	1,239
	663,190	663,190

Sail prisiad teg

- 1 Y ffigur yma yw gwerth adneuron gyda banciau masnachol. Disgwylir bod gwerth llyfr yn gyfwerth â gwerth teg.
- 2 Rheolir buddsoddiadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'n darparu manylion i'r Ymddiriedolwyr am gost llyfr a gwerth teg ein balansau ar ddyddiad y fantolen.
- 3 Ni thbyir bod darpariaeth ar gyfer drwgddyledion yn angenrheidiol. Mae un o'r dyledion yn un hirdymor ac nid oes unrhyw gyfradd llog wedi'i chymhwyso i'r benthyciad.
- 4 Er y datgelwn £326.3miliwn o ymrwymadau grant fel rhai nad ydynt i'w talu tan ar ôl un flwyddyn, nid ydym wedi gwneud addasiad gwerth teg. Mae rhwymedigaeth contractiol gan Ymddiriedolwyr i dalu'r symiau hyn ar alwad, yn amodol ar gontract, ac felly gallai'r symiau gael eu talu o fewn y 12 mis nesaf.
- 5 Mae'r holl gredydwyd yn ddyledus o fewn termau contractiol arferol, 14-30 diwrnod fel arfer, ac felly nid oes unrhyw wahaniaeth yn bodoli rhwng cost llyfr a gwerth teg.

Rhwymedigaethau ariannol yn aeddfedu

	2008-09 £'000	2007-08 £'000
Mewn llai na blwyddyn	269,036	293,170
Mewn mwy na blwyddyn, ond llai na dwy flynedd	326,341	370,020
Mewn dwy i bum mlynedd	0	0
Mewn mwy na phum mlynedd	0	0
	595,377	663,190

Datblygiadau'r dyfodol

Er bod incwm o'r Loteri Genedlaethol wedi'i gynnal, mae effaith y llywodraeth yn ailgyfeirio rhywfaint o'n cyllid yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol i Gemau Olympaidd 2012 (£161miliwn) ac effeithiau blynyddoedd o wneud dyfarniadau sy'n sylweddol uwch na'n hincwm, yn golygu bod ein cyllidebau grant wedi gorfod cael eu cwtdogi ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Ein nod yw dyfarnu £180miliwn y flwyddyn o 2009-10 ymlaen. Mae'n rhy gynnar i ddweud yn sicr a fydd y dirwasgiad yn cael unrhyw effaith ar werthiant tocynnau, er bod yr arwyddion cynnar yn galonogol, ond mae'r adenillion o fuddsoddiadau i'r CDLG yn gostwng. Bydd Ymddiriedolwyr yn monitro incwm yn fanwl dros y 12 mis nesaf, ac yn diwygio cyllidebau grant y dyfodol os bydd angen.

Mae Ymddiriedolwyr yn cydnabod na fydd gweithgareddau Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn dirywio yn unol â chyllidebau grant sy'n gostwng. Nid oes rheswm i gredu y bydd ceisiadau am grantiau'n gostwng o ran nifer; byddwn yn parhau i gynnig cyngor cyn ymgeisio i unrhyw sefydliad sy'n gofyn amdano; a byddwn yn parhau i fonitro ac i wneud taliadau i'r miloedd lawer o brosiectau sy'n cael cymorth grant nad ydynt wedi'u cwblhau eto.

Er mwyn peidio ag anghymell darpar ymgeiswyr gan y siawns lai sydd ganddynt o gael grant, mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri wedi gwneud ei phroses ymgeisio yn symlach, a bydd penderfyniadau cychwynnol yn cael eu gwneud ar geisiadau yn gynharach yn y broses asesu. Bydd hyn yn golygu y bydd angen i ymgeiswyr wneud llai o waith cyn cael rhyw fath o syniad ynglŷn ag a oes siawns ganddynt o lwyddo, a byddant yn cael gwybod yn gynharach. Mae hyn yn golygu hefyd y gallent gael cymorth ariannol i lenwi'u cais llawn yn gynharach yn y cylchred. Yn ogystal, rydym yn cyllido mentoriaid a fydd yn cynorthwyo rhai grantion baratoi eu cais llawn.

O fis Ebrill 2009, ni fydd Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn cyfrannu mwyach at y cynllun Arian i Bawb sy'n cael ei weithredu gan Y Gronfa Loteri Fawr ar ran nifer o ddosbarthwyr y Loteri. I wneud iawn am hyn, rydym wedi lleihau lleiafswm gwerth y grant ar ein rhaglenni Eich Treftadaeth a Gwreiddiau Ifanc.

Mae'r llywodraeth wedi cyflwyno'r gofyniad bod pob corff y sector cyhoeddus yn newid i ddefnyddio safonau rhyngwladol ar adrodd ariannol. Bydd Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn mabwysiadu'r safonau hyn o 1 Ebrill 2009 ymlaen. Ni ddisgwylir y bydd hyn yn cael effaith arwyddocaol ar y rhifau a adroddir yn y cyfrifon diwedd blwyddyn.

Ymgynghori â chyflogeion

Mae natur gweithrediadau Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn golygu bod staff sy'n prosesu ceisiadau grant yn gweithio'n agos gyda'r Ymddiriedolwyr. Mae staff yn ymwneud â gwerthuso prosiectau ac yn ymweld ag ymgeiswyr gyda'r Ymddiriedolwyr. Mae llawer o aelodau staff yn mynychu cyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr, er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o feddwl am ddatblygiad y Gronfa a'i gweithrediadau. Yn ogystal, mae uwch reolwyr yn sicrhau, drwy grynodedau o gyfarfodydd y Bwrdd Rheoli yn y Cylchlythyr wythnosol, cyfarfodydd wyneb yn wyneb a lefel uchel o hygyrchedd personol, y gellir mynd i'r afael yn rhwydd â materion sy'n peri gofid i staff. Mae'n hanfodol y caiff yr holl staff y cyfle i gyfrannu at ddatblygiad y Gronfa yn ogystal â chyflawni eu potensial eu hunain drwy ymgynghori a thrafod yn rheolaidd. I'r perwyl hwn, mae Cyngor Staff yn bodoli. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr o bob adran, ac yn trafod materion o ddiddordeb i staff, gyda chynrychiolwyr o'r rheolwyr. Mae'n cyfarfod naw gwaith y flwyddyn.

Cyfle cyfartal

Fel cyflogwr, mae Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn cadw at ddeddfwriaeth cyfle cyfartal. Nid yw'n gwahaniaethu yn erbyn staff nac ymgeiswyr

cymwys am swyddi gwag ar sail rhyw, statws priodasol, hil, lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig, cred grefyddol, anabledd, oedran na chyfeiriadedd rhywiol. Cymerir pob cam posibl i sicrhau bod staff yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg a bod penderfyniadau am recriwtio, dewis, hyfforddi, dyrchafu a rheoli gyrfa yn seiliedig ar feini prawf gwrthrychol sy'n gysylltiedig â'r swydd yn unig. Nid yw'n goddef unrhyw fath o wahaniaethu, aflonyddu nac erledigaeth. Mae'r Gronfa'n croesawu ceisiadau swydd gan bobl ag anableddau, ac ar hyn o bryd mae oddeutu 4% o'n gweithlu yn bobl ag anableddau. Mae gofyn i'r holl staff gydweithredu i wneud i'r polisi hwn weithio'n effeithiol.

Credydwyr

Mae Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn cydymffurfio â'r safon Lywodraeth-gyfan ar dalu biliau a Chod Ymarfer Talu Gwell Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, sef talu pob bil dilys ymhen 30 diwrnod. Yn 2008-09, oed cyfartalog yr anfonebau a dalwyd oedd 11 diwrnod gwaith. Talwyd dros 92% o anfonebau ymhen 30 diwrnod calendr.

Rhwymedigaethau pensiwn

Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn gwneud cyfraniadau at gynlluniau pensiwn staff. Heblaw am wneud y taliadau hyn, nid oes gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri unrhyw rwymedigaethau pensiwn ac eithrio tri aelod blaenorol o staff. Ystyria'r Ymddiriedolwyr fod darpariaeth y fantolen, a wnaed i dalu pensiwn yr aelodau blaenorol hynny o staff, yn ddigonol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y nodiadau i'r cyfrifon.

Cofrestr buddiannau

Fel mater o bolisi a gweithdrefn, mae'r Ymddiriedolwyr yn datgan unrhyw fuddiannau uniongyrchol mewn ceisiadau grant a pherthnasoedd masnachol â Chronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ac yn eithrio eu hunain o'r prosesau arfarnu, trafod a phenderfynu grantiau perthnasol yng Nghronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol. Yn eu cysylltiadau ag

ymgeiswyr grant, mae'r Ymddiriedolwyr yn ceisio osgoi lefelau ymglymiad neu ddylanwad a fyddai'n anghydnaws â'u cyfrifoldebau fel Ymddiriedolwr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol. Mae trefniadau cyfatebol i staff adrodd am fuddiannau ac osgoi gwrthdaro buddiannau posibl. Mae'r Gofrestr Buddiannau Ymddiriedolwyr ar gael i'r cyhoedd ei gweld drwy gysylltu ag Ysgrifennydd yr Ymddiriedolwyr, 7 Holbein Place, Llundain SW1W 8NR.

Penodi archwilydwr

Mae Deddf Treftadaeth Genedlaethol 1980 yn darparu ar gyfer archwilio cyfrifon blynyddol Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Mae Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 yn ymestyn hyn i weithgareddau loteri'r Ymddiriedolwyr.

Rhanddeiliaid allweddol

Prif rhanddeiliaid Cronfa Dreftadaeth y Loteri yw'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, ac mae hefyd yn rheoli Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol sy'n buddsoddi'r arian a geir o'r Loteri Genedlaethol. Ymhlith y rhanddeiliaid allweddol eraill y mae'r cyrff hynny sy'n prosesu asesiadau ar ein rhan ar gyfer rhai rhaglenni grant, sef y Gronfa Loteri Fawr (rhaglen Arian i Bawb), ac English Heritage (Grantiau Atgyweirio ar gyfer Mannau Addoli).

Digwyddiadau ôl-fantolen

Ni chafwyd unrhyw ddigwyddiadau ar ôl 31 Mawrth 2009 hyd at ddyddiad llofnodi'r cyfrifon hyn gan y Swyddog Cyfrifyddu, y mae angen eu dwyn i sylw'r darllenydd. Awdurdodwyd y cyfrifon gan y Swyddog Cyfrifyddu i'w cyhoeddi ar 9 Gorffennaf 2009, sef y dyddiad yr ardystiwyd y cyfrifon gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

Data personol

Ni chafodd Cronfa Dreftadaeth y Loteri unrhyw ddigwyddiadau lle datgelwyd data personol yn anfwriadol i drydydd parti. Bydd Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn

parhau i fonitro ac asesu ei risgiau gwybodaeth er mwyn nodi a mynd i'r afael ag unrhyw wendidau, ac i sicrhau gwelliannau parhaus i'w systemau.

Absenoldeb oherwydd salwch

Yn 2008–09, collwyd 2,655 o ddiwrnodau yn sgîl 494 o achosion o salwch. Mae hynny'n cynrychioli 2.92% o'r holl ddiwrnodau gweithio, ac yn ganran isel iawn.

Cadeirydd ac Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol

Cadeirydd

Y Fonesig Jenny Abramsky ² *Ymddiriedolwr o 1 Medi 2008 a Chadeirydd o 1 Hydref 2008*
Y Fonesig Liz Forgan *hyd nes 30 Medi 2008*

Prif Weithredwr

Carole Souter ²

Ymddiriedolwyr

Madhu Anjali *nes 21 Gorffennaf 2008*

Mike Emmerich

Kim Evans ² *o 22 Gorffennaf 2008*

Yinnon Ezra ¹

Kathy Gee

Catherine Graham-Harrison *hyd nes 22 Gorffennaf 2008*

Doug Hulyer ¹

Tristram Hunt

Dan Clayton-Jones

Hilary Lade ² *o 1 Hydref 2008*

Brian Lang

Alison McLean ¹

Matthew Saunders

Ronnie Spence ¹

Richard Wilkin ²

Christopher Woodward

¹ Aelod o'r Pwyllgor Archwilio

² Aelod o'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau

Y Fonesig Jenny Abramsky **Carole Souter**

Cadeirydd

Prif Weithredwr

7 Gorffennaf 2009

Adolygiad ariannol

Mae Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn gweithredu dwy gronfa – sef Cronfa Dreftadaeth y Loteri a Chronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol. Mae cyfarwyddiadau cyfrifon yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn mynnu ei bod yn cyfrif am ei gweithgareddau ar wahân ac felly ni pharatoir unrhyw gyfrifon cyfunol. Dim ond gweithgareddau Cronfa Dreftadaeth y Loteri y mae'r adolygiad hwn yn eu trafod.

Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn cael ceisiadau gan filoedd o sefydliadau ar draws holl gymunedau'r Deyrnas Unedig ac yn dyrannu grantiau ar sail ei nodau. Ers i'r Loteri ddechrau ym 1994, mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri wedi gwneud bron i 34,000 o ddyfarniadau ac wedi delio â thros 49,000 o geisiadau grant. Yn ystod y flwyddyn, cafwyd mwy na 3,000 o geisiadau grant, yn gofyn am dros £600miliwn (h.y. 3 gwaith ein hincwm). Mae hyn yn dangos bod galw anferthol o hyd am arian y Loteri, 15 mlynedd ar ôl i'r Loteri ddechrau.

Ym mis Ebrill 2008, cyhoeddodd yr Ymddiriedolwyr eu trydydd Cynllun Strategol sy'n cwmpasu'r cyfnod 2008 i 2013, a gwnaethant nifer o newidiadau sylweddol i'r system asesu ceisiadau grant. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi newid y ffordd

y caiff ceisiadau i'r rhaglen grant fwyaf (Grantiau Treftadaeth) eu prosesu. Gwnaed y newid er mwyn rhoi syniad i ymgeiswyr yn gynharach ynglŷn â ph'un a oes siawns o lwyddo gan eu cais ai peidio. Mae hyn yn arbed amser ac arian iddynt rhag canlyn prosiectau nad oes fawr o siawns y byddant yn cael grant.

Effaith y newid hwn yw nad yw'r penderfyniad cychwynnol yn cael ei ystyried yn ymrwymiad meddal bellach. Nid yw'r penderfyniad rownd gyntaf, fel y'i gelwir bellach, bob amser yn arwain yn anochel at ddyfarniad ail rownd yn yr un ffordd ag yr oedd pas cam 1 yn dod yn ddyfarniad cam 2. Rydym hefyd wedi archwilio bron yn gyfan gwbl ein dulliau o brosesu ac amserau asesu, a chanlyniad hyn yw ein bod erbyn hyn yn gwneud penderfyniadau'n gyflymach hyd yn oed ar y ceisiadau hynny nad ydynt yn mynd trwy broses ddwy rownd.

Yn ystod 2008–09, gwnaeth yr Ymddiriedolwyr ymrwymïadau meddal newydd a oedd yn gyfanswm o £150.9miliwn (diffinnir ymrwymïadau meddal a chaled yn nodyn 1 i'r cyfrifon). Roedd hyn yn llai na £283.9miliwn y llynedd gan y bu rhaid i'r Ymddiriedolwyr leihau lefelau dyfarniadau er mwyn ystyried incwm llai yn y flwyddyn ac yn y dyfodol ac oherwydd na allant barhau i

Tabl ymrwymïadau

	Ymrwymïadau meddal cam un a rownd un* £m	Dyfarniadau grant £m	Ymrwymïadau caled £m	Cyfanswm penderfyniadau £m
Ar 1 Ebrill 2008	273.9	80.9	660.3	
Penderfyniadau Ymddiriedolwyr yn y flwyddyn	80.6	70.3	–	150.9
Troswyd yn y flwyddyn	(162.4)	162.4	–	
Troswyd yn y flwyddyn	–	(238.4)	238.4	
Dad-ymrwymïadau	(10.2)	(0.5)	(8.5)	
Taliadau grant	–	–	(297.1)	
Ar 31 Mawrth 2009	181.9	74.7	593.1	

* Nid yw holl basiau rownd un yn ymrwymïadau meddal. Nid ystyrir pasiau rownd un ar gyfer ceisiadau dan y rhaglen Grantiau Treftadaeth yn ymrwymïadau caled.

ymrwymo i ddyfarnu mwy na'r cyllid sydd ganddynt. Yn ogystal, canlyniad y newid i broses ddwy rownd ar gyfer Grantiau Treftadaeth yw, yng nghamau cynnar gweithredu, bydd lefel yr ymrwymïadau meddal sy'n cael eu gwneud yn gostwng.

Yr incwm ar gyfer y flwyddyn oedd £208miliwn, gyda £10miliwn ychwanegol mewn incwm buddsoddiad yn cael ei ennill gan Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol ar ein rhan. Balansau yn syrthio yn yr CDLG yn ogystal â gostyngiadau sylweddol yng nghyfraddau llog marchnad a llog o giltiau yw'r rheswm am yr adenillion llai ar incwm buddsoddiad.

Fe wnaeth balans cyllid Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn yr CDLG syrthio i £452miliwn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol – gostyngiad o £115miliwn yn y flwyddyn. Roedd incwm gwerthu tocynnau ychydig uwchlaw'r rhagolwg a gafwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ym mis Mawrth 2008, o £9miliwn, ond roedd incwm buddsoddiad islaw eu rhagolwg, o £3miliwn. Hefyd, dechreuodd yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ailddyrannu cyllid o'r CDLG i helpu ariannu Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Llundain 2012. Cafodd balans Cronfa Dreftadaeth y Loteri ei lleihau gan bron i £11miliwn ym mis Chwefror 2009. Bydd £150miliwn pellach yn cael ei gymryd dros yn yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn parhau i gydnabod y dylai'r balans yn yr CDLG ostwng ymhellach. O ganlyniad i bolisi blynyddoedd blaenorol lle maent wedi dyfarnu grantiau ymhell uwchlaw'r incwm, mae'r lefel taliadau grant sy'n cael eu gwneud ymhell uwchlaw'r incwm, ac felly bydd balans yr CDLG yn parhau i ddisgyn. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, roedd Cronfa Dreftadaeth y Loteri wedi ymrwymo £398miliwn yn fwy na'r hyn yr oedd ganddi yn yr CDLG – sef rhyw ddwy flynedd o incwm disgwylïedig. Roedd balans rhwymedigaethau cytundebol yn fwy nag asedau net Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn ystod y flwyddyn ac roedd diffyg net ar y fantolen o dros £135miliwn ar 31 Mawrth 2009. Paratowyd y cyfrifon ar sail weithredol fel y mae cyfarwyddyd cyfrifon yr Ysgrifennydd Gwladol yn mynnu ac oherwydd y sicrhawyd yr Ymddiriedolwyr y byddant yn cael incwm gan y Loteri Genedlaethol hyd nes 2019 o leiaf.

Mae'r tabl ar dudalen 8 yn dangos yr ymrwymïadau meddal a wnaed a hefyd trosiad ymrwymïadau meddal mewn blynyddoedd blaenorol yn ymrwymïadau caled yn 2008–09. Caiff ymrwymïadau meddal eu trosi'n ymrwymïadau caled pan fydd contract wedi'i lofnodi gyda derbynnydd y grant.

Costau gweinyddol gwirioneddol yn erbyn costau chwyddedig 2003–04

£30miliwn

£25miliwn

£20miliwn

£15miliwn

	2003–04	2004–05	2005–06	2006–07	2007–08	2008–09
– Gweinyddu – costau gwirioneddol	22.42	22.73	22.96	20.34	20.58	20.50
– Gweinyddu – costau chwyddedig 2003–04	22.42	23.03	23.50	24.15	24.82	25.44

Roedd dros hanner y penderfyniadau a wnaed yn y flwyddyn (£80.6miliwn) ar gyfer pasiau cam un o dan yr hen broses benderfynu dau gam a ddisodlwyd yng nghanol y flwyddyn. Roedd y gweddill (£70.3miliwn) ar gyfer dyfarniadau grant yn y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn, llofnodwyd contractau ar gyfer £238.4miliwn o grantiau – h.y. ymrwymadau caled newydd. (Gweler y tabl ar dudalen 8).

At ei gilydd, fe wnaeth costau gweinyddol ostwng 0.4% yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn yn ganlyniad i ostyngiad 5.6% mewn costau staff a chynnydd o 5% mewn costau gweinyddol. Mae'r gostyngiad ymddangosiadol mewn costau staff yn adlewyrchu mewn gwirionedd mynd yn ôl at lefel arferol o wariant yn dilyn nifer o ddiswyddiadau ac ymddeoliadau cynnar yn 2007–08. Mae costau gweinyddol wedi codi yn sgil y gost o ddiweddarau ein systemau i weithredu ein trydydd Cynllun Strategol, ac nid yw'n cynrychioli cynnydd mewn costau sylfaenol. Parhaodd y cyfraniad o'r Gronfa Loteri Fawr tuag at gost cynnal y rhaglen Parciau i Bobl yn gyson ar £657,000 (2007–08: £653,000). Mae'r Ymddiriedolwyr yn cymeradwyo'r gwaith a wnaed gan reolwyr a staff i leihau costau'n gyffredinol o 0.4%. Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod bod rhaid i drosglwyddiadau cyllid helpu Gemau Olympaidd Llundain 2012 ac incwm buddsoddiad sy'n gostwng gael eu talu gan ostyngiad mewn costau gweinyddol drwy arbedion effeithlonrwydd. Cafodd y gwaith i gynhyrchu'r Cynllun Strategol newydd a'r newidiadau angenrheidiol i systemau ei gyflawni'n llwyddiannus er gwaethaf parhad y duedd ostyngol o ran niferoedd staff. Mae'r Ymddiriedolwyr yn disgwyl i niferoedd staff ostwng ychydig yn y blynyddoedd nesaf. I gael mwy o fanylion am niferoedd staff, gweler nodyn 3 i'r cyfrifon.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod na ddylid cyflawni gwell effeithlonrwydd yn y costau gweinyddu ar draul gwasanaeth i'n rhanddeiliaid. Maent yn falch o adrodd bod cyflawniad targedau lefel gwasanaeth ar gyfer ymgeiswyr a rhai sy'n derbyn grantiau

wedi bod yn nodedig eto. Mae mwy o wybodaeth am ein targedau lefel gwasanaeth ar gael mewn mannau eraill yn y ddogfen hon

Bu'r Ymddiriedolwyr yn ystyried y risgiau sy'n wynebu Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn y flwyddyn ac maent wedi adlewyrchu eu hystyriaethau mewn cofrestr o'r risgiau hynny. Mae pryder ynghylch effaith colli'r arian sy'n cael ei ailgyfeirio i gefnogi Gemau Olympaidd Llundain, a bydd yr Ymddiriedolwyr yn gweithio tuag at liniaru'r effaith yn ystod y flwyddyn nesaf. Nid yw'r dirwasgiad i weld yn cael effaith ar werthiant tocynnau'r Loteri Genedlaethol ar hyn o bryd, ond mae tystiolaeth bod cynnydd yn y pryder sy'n cael ei fynegi gan grantion presennol a darpar grantion yn eu gallu i godi digon o arian ar gyfer eu prosiectau, ac o ran dioddef methdaliad eu contractwyr. Mae'r Ymddiriedolwyr yn

Gwybodaeth archwilledig

	2008–09 £'000*	2007–08 £'000
Y Fonesig Liz Forgan	20–25	40–45
Y Fonesig Jenny Abramsky <i>Cadeirydd</i>	20–25	0
Madhu Anjali	0–5	5–10
Mike Emmerich	5–10	5–10
Kim Evans	0–5	0
Yinnon Ezra	0–5	0–5
Kathy Gee	10–15	5–10
Catherine Graham-Harrison	0–5	5–10
Doug Hulyer	10–15	10–15
Tristram Hunt	5–10	5–10
Dan Clayton-Jones	20–25	20–25
Hilary Lade	5–10	0
Brian Lang	20–25	20–25
Alison McLean	5–10	0–5
Matthew Saunders	5–10	5–10
Ronnie Spence	20–25	20–25
Richard Wilkin	10–15	10–15
Christopher Woodward	5–10	5–10

* Mae newidiadau sylweddol yn y tâl a adroddwyd, gan gynnwys treuliau trethadwy yn ddyledus i'r Ymddiriedolwyr nad ydynt wedi'u cyflogi am flwyddyn lawn naill ai yn 2007–08 neu 2008–09

monitro'r sefyllfa, ond credant ei bod yn rhy gynnar i lunio unrhyw gasgliadau cadarn. Trafodir y prif risgiau ymhellach yn y Datganiad ar Reolaeth Fewnol.

Dangosydd perfformiad allweddol Mae gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri enw da fel dosbarthydd effeithiol o arian y Loteri. Mae'r graff ar waelod tudalen 9 yn nodi ein costau gweinyddol ym mhob un o'r chwe blynedd diwethaf – y llinell dywyll. Mae'r llinell olau yn dangos gwerth costau gweinyddol a gafwyd chwe blynedd yn ôl o'u cynyddu'n unol â datchwyddwr CMC y Trysorlys – amcangyfrif o lefel gyffredinol chwyddiant yn economi'r DU. Mae'r Ymddiriedolwyr yn falch o nodi bod costau gweinyddol yn 2008–09 £4.9miliwn (neu 21.9%) yn is nag y byddai chwyddiant ers 2003–04 wedi awgrymu – ac mae hynny'n ostyngiad termau real sylweddol mewn costau gweinyddol.

Adroddiad tâl

Tâl y Cadeirydd a'r Ymddiriedolwyr Roedd hawl gan bob Ymddiriedolwr gael cyflog blynyddol am yr amser a dreuliwyd ar weithgareddau Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol. Yn ogystal, fe wnaeth Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ad-dalu costau teithio rhai Ymddiriedolwyr o'u cartrefi i'w swyddfa waith yn Llundain, Caeredin, Caerdydd neu Belfast. Talodd Cronfa Dreftadaeth y Loteri'r rhwymedigaeth dreth ar y costau hyn.

Mae tâl yr Ymddiriedolwyr hynny a gafodd eu talu, gan gynnwys ad-dalu treuliau trethadwy a'r dreth ar hynny, yn cael ei rannu i'r bandiau yn y tabl ar dudalen 10. Fe wnaeth un Ymddiriedolwr, Yinnon Ezra, ildio'i hawl i gael cyflog.

Tâl cyflogaion (Gwybodaeth archwiliedig)

Roedd tâl y cyfarwyddwyr fel a ganlyn:

	Cyflog yn cynnwys bonws perfformiad 2008–09 £'000	Cyflog yn cynnwys bonws perfformiad 2007–08 £'000	Cynnydd real mewn pensiwn a chyfandaliad £'000	Cyfanswm pensiwn cronedig yn 60 oed a chyfandaliad £'000	Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian (CETV) ar 31/3/09 £'000	Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian (CETV) ar 31/3/08 £'000*	Cynnydd real yn CETV wedi'i ariannu gan CGDG £'000
Carole Souter <i>Prif Weithredwr</i>	125–130	120–125	0–2.5 a 2.5–5 o gyfandaliad	40–45 a 130–135 o gyfandaliad	801	715	20
Robert Bewley <i>Cyfarwyddwr Gweithrediadau</i>	90–95	65–70**	0–2.5 a 5–7.5 o gyfandaliad	25–30 a 75–80 o gyfandaliad	510	436	34
Judith Cligman <i>Cyfarwyddwr Polisi a Strategaeth</i>	85–90	85–90	0–2.5 a 2.5–5 o gyfandaliad	25–30 a 75–80 o gyfandaliad	452	395	21
Karen Brookfield*** <i>Cyfarwyddwr Dros Dro Polisi a Strategaeth</i>	70–75	65–70	0–2.5 a 2.5–5 o gyfandaliad	25–30 a 75–80 o gyfandaliad	450	434	21
Steve Willis <i>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol</i>	105–110	105–110	0–2.5 a 0–2.5 o gyfandaliad	45–50 a 145–150 o gyfandaliad	1,037	958	1

* Mae'r ffigurau hyn yn wahanol i'r rheiny a ddyfynnwyd yng nghyfrifon y llynedd. Y rheswm am hyn yw bod ffactorau CETV wedi cael eu diweddaru i gydymffurfio â Rheoliadau Diwygio Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) 2008.

** Ymunodd Robert Bewley â ni ran o'r ffordd drwy 2007–08, sy'n esbonio'r cynnydd ymddangosiadol mawr yn ei gyflog.

*** Gwnaed Karen Brookfield yn Gyfarwyddwr dros dro am 15 wythnos yn ystod absenoldeb dros dro Judith Cligman.

Mae gan bob Ymddiriedolwr benodiad tair blynedd, y gellir ei adnewyddu am ail dymor. Fe'u penodir gan y Prif Weinidog. Nid ydynt yn aelodau o'r cynllun pensiwn a ddefnyddir gan Gronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol. Ni wnaed unrhyw gyfraniadau gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri at gynllun pensiwn ar ran yr Ymddiriedolwyr. Dyrannwyd holl dâl yr Ymddiriedolwyr rhwng Cronfa Dreftadaeth y Loteri a Chronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ar sail 99%:1%. Cyfanswm tâl yr Ymddiriedolwyr yn 2008–09 oedd £207,674 (2007–08: £227,946). Caiff tâl a chontractau'r Ymddiriedolwyr eu trafod a'u gosod gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y gall yr aelod ei hawlio pan fydd yn cyrraedd 60, neu ar unwaith os bydd yn peidio â bod yn aelod gweithgar o'r cynllun os yw eisoes yn 60.

Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian

Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian (CETV) yw gwerth wedi'i gyfalafu a aseswyd yn actiwaraid y budd-daliadau cynllun pensiwn a gronnir gan aelod ar adeg benodol. Y budd-daliadau a brisiwyd yw budd-daliadau cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn priod amodol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan y cynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau budd-daliadau pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r budd-daliadau sydd wedi cronni yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn gysylltiedig â'r budd-daliadau y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i gyfanswm ei aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid yn unig ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae datgeliad yn berthnasol iddo. Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fudd-dal pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y gwasanaeth sifil. Maent hefyd yn cynnwys

unrhyw fudd-dal pensiwn ychwanegol sydd wedi cronni i'r aelod o ganlyniad iddo'n prynu blynnyddoedd ychwanegol o wasanaeth pensiwn yn y cynllun ar ei gost ei hun. Cyfrifir gwerthoedd CETV yn y canllawiau a'r fframwaith a bennwyd gan Sefydliad a Chyfadran yr Actiwariaid, ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu ostyngiad posibl i fudd-daliadau o ganlyniad i Dreth Lwfans Oes a all fod yn ddyledus pan fydd y budd-daliadau pensiwn yn cael eu tynnu.

Cynnydd real mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr i bob pwrpas. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fudd-daliadau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisiad marchnad cyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Roedd gan bob uwch gyflogai gontractau cyflogaeth parhaol ac roeddent yn aelodau cyffredin o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Dyrannwyd eu costau rhwng Cronfa Dreftadaeth y Loteri a Chronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ar sail 99%: 1% (2007–08: 99%: 1%). Caiff tâl a chontractau uwch gyflogaion eu trafod a'u gosod gan y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau. (Datgelir aelodaeth y pwyllgor hwn ar dudalen 7.) Mae tâl uwch reolwyr yn gysylltiedig â pherfformiad. Mae'r swm yn seiliedig ar berfformiad yn erbyn amcanion unigol a chyfraniad cyffredinol at strategaeth a nodau corfforaethol. Gosodir amcanion unigol i'r Prif Weithredwr gan Gadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, ac mae'r Prif Weithredwr yn ei thro'n cytuno amcanion personol â'r cyfarwyddwyr swyddogaeth. Mae amcanion yn adlewyrchu nodau strategol a gweithredol Cronfa Dreftadaeth y Loteri a'r cyfraniad a ddisgwyllir gan bob uwch reolwr unigol i gyrraedd y nodau. Mae gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri system rheoli perfformiad ac mae perfformiad yn cael ei

adolygu yn unol â hyn. Caiff perfformiad ei adolygu bob blwyddyn ym mis Mawrth-Ebrill a'i ddosbarthu ar raddfa o 4 gwahanol lefel cyflawniad. Mae cynllun bonws ar gyfer y cyfarwyddwyr sy'n ystyried barn y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau am gyfraniad yr unigolyn tuag at lwyddiant ehangach y sefydliad, gyda chyfeiriad penodol at y ffordd y mae'n rheoli ei adran ei hun a'i effaith ar feysydd eraill; effaith yr unigolyn ar yr Ymddiriedolwyr a'u heffeithiolrwydd; ac unrhyw gyfraniad neu gyflawniad eithriadol yn ystod y flwyddyn na chafodd ei adlewyrchu yn yr amcanion allweddol ar gyfer y flwyddyn. Disgwylir i'r polisi hwn barhau yn y dyfodol. Penodir uwch reolwyr ar gontractau penagored gyda chyfnodau rhybudd heb fod yn fwy na 6 mis. Pe byddai angen ystyried taliadau terfynu, byddai Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn cadw'n llawn at reolau Cynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil ac unrhyw arweiniad cysylltiedig gan y Trysorlys neu'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Carole Souter
Prif Weithredwr

7 Gorffennaf 2009

Datganiad o gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Prif Weithredwr
O dan adran 34(1) o Ddeddf Loteri Genedlaethol ac ati 1993, mae gofyn i Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol baratoi cyfriflenni ar gyfer pob blwyddyn ariannol am eu gweithgareddau dosbarthu arian y loteri yn y ffurf ac ar y sail a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon gyda chaniatâd y Trysorlys. Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail cronladau ac mae'n rhaid iddynt roi golwg gwir a theg o sefyllfa Cronfa Treftadaeth y Loteri ar ddiwedd y flwyddyn, o'i henillion a'i cholledion cydnabyddedig ac o'i hincwm a'i gwariant a'i llifoedd arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon mae gofyn i Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol gydymffurfio â gofynion Canllaw Adrodd Ariannol y Llywodraeth ac yn benodol:

- ddilyn y cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan y Trysorlys, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisiau cyfrifyddu addas yn gyson;
- llunio dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- datgan a ddilynwyd y safonau cyfrifyddu perthnasol, fel y nodir yng Nghanllaw Adrodd Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau materol yn y datganiadau ariannol; a
- pharatoi'r datganiadau ariannol ar y sail weithredol, oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn parhau i weithredu.

Mae Swyddog Cyfrifyddu'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi penodi'r uwch swyddog amser llawn, y Prif Weithredwr, yn Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol. Mae ei chyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys ei chyfrifoldeb am briodoldeb a chysondeb y cyllid cyhoeddus, am ddiogelu asedau Cronfa Dreftadaeth y Loteri a

chadw cofnodion priodol, yn cael eu nodi ym Memorandwm Swyddogion Cyfrifyddu y Cyrff Cyhoeddus Anadrannol, a gyhoeddir gan y Trysorlys ac a gyhoeddir yn Managing Public Money.

Hyd y gŵyr y Swyddog Cyfrifyddu, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw ein harchwilwyr yn ymwybodol ohoni. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi cymryd pob cam y dylai i wneud ei hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sicrhau bod ein harchwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Y Fonesig Jenny Abramsky **Carole Souter**
Cadeirydd Prif Weithredwr

7 Gorffennaf 2009

Datganiad ar reolaeth fewnol

Cwmpas cyfrifoldeb

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawni polisiau, nodau ac amcanion Cronfa Dreftadaeth y Loteri, ac ar yr un pryd yn diogelu'r cyllid a'r asedau cyhoeddus yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd i mi yn Managing Public Money.

Rwyf yn gweithio'n agos gydag Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol sy'n rhannu cyfrifoldeb am:

- Roi arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol;
- Diffinio dulliau rheoli i ddiogelu adnoddau cyhoeddus;
- Goruchwyllo'r rheolaeth gyffredinol ar weithgareddau Cronfa Dreftadaeth y Loteri; ac
- Adrodd am stiwardiaeth cyllid cyhoeddus.

Cyflawnir y cyfrifoldeb hwn drwy gyfarfodydd rheolaidd yr Ymddiriedolwyr ag uwch reolwyr i osod polisi ar gyfer Cronfa Dreftadaeth y Loteri a gwneud penderfyniadau yn unol â pholisi. Yn ogystal, mae is-bwyllgorau Ymddiriedolwyr, yn benodol y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau a'r Pwyllgor Archwilio, yn goruchwyllo gweithgareddau rheoli ac yn rhoi cefnogaeth. Mae'r holl weithgarwch gosod polisi a phenderfynu grantiau yn cael ei lywio gan ddiwylliant rheoli risg yr CGDG. Yn benodol, mae'r Pwyllgor Archwilio'n trafod yn rheolaidd yr adroddiadau risg a gynhyrchir gan reolwyr ac yn eu holi am y dulliau a ddefnyddiant i liniaru risg. Yn ogystal, mae'r CGDG yn aelod o Grŵp Rheoli Risg Fforwm y Loteri. Mae'r grŵp hwn, sy'n cynnwys cynrychiolwyr dosbarthwyr y Loteri, wedi creu fframwaith risg cyffredin.

Caiff cynllun gweithredu blynyddol yr CGDG – y Cynllun Busnes – ei drafod â'n hadran noddi, sef yr Adran dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'r Adran hefyd wedi gosod Cyfarwyddiadau Polisi ac Ariannol y mae'n rhaid i ni gydymffurfio â hwy yn ein gweithgareddau Loteri (Mae

Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi rhai cyfarwyddiadau polisi hefyd mewn perthynas â'n gweithgareddau yng Nghymru). Rydym hefyd yn gweithredu yn unol â Datganiad Rheoli cytunedig a Memorandwm Ariannol sy'n seiliedig ar dempled a luniwyd gan y Trysorlys. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd rheolaidd ag uwch swyddogion yr Adran dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon a chyd-ddosbarthwyr y Loteri.

Diben y system rheolaeth fewnol Cynlluniwyd y system rheolaeth fewnol i reoli risg at lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethu cyflawni polisiau, nodau ac amcanion; dim ond rhoi sicrwydd rhesymol ac nid absoliwt o effeithiolrwydd y gall wneud felly. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a gynlluniwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisiau, nodau ac amcanion Cronfa Dreftadaeth y Loteri, i werthuso tebygolrwydd sylweddoli'r risgiau hynny a'r effaith pe byddent yn cael eu sylweddoli, ac i'w rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Bu'r system rheolaeth fewnol ar waith yng Nghronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon blyneddol ac mae'n cydsynio ag arweiniad y Trysorlys.

Gallu i ddellio â risg
Y Bwrdd Rheoli, sy'n cynnwys rheolwyr uchaf yr CGDG, sy'n arwain ar bob agwedd ar reoli risg. Mae'n penodi perchenogion risg ac yn eu gwneud yn gyfrifol am greu a chymhwyso strategaethau i liniaru'r risg o dan eu rheolaeth.

Mae'r Pwyllgor Archwilio, sy'n cynnwys pedwar Ymddiriedolwr, yn trafod y broses rheoli risg yn rheolaidd ac yn adrodd yn ôl i'r prif gorff o Ymddiriedolwyr am reoli risg. Ymhellach, mae archwiliadau mewnol ac allanol yn adolygu'r prosesau rheoli risg fel rhan o'u gwaith a gallant roi budd eu profiad o weithgareddau rheoli risg sefydliadau eraill.

Mae staff, o reolwyr canol i fyny, wedi cael hyfforddiant mewn technegau rheoli risg.

Y fframwaith risg a rheoli
Lluniodd y Bwrdd Rheoli ddatganiad rheoli risg sy'n disgrifio sut y mae'r CGDG yn nodi, monitro ac yn rheoli risgiau a chyfleoedd. Adolygir y datganiad hwn yn rheolaidd. Bob blwyddyn, caiff risgiau eu categoreiddio drwy ystyried pa mor debygol y maent o ddigwydd pe na fyddai unrhyw weithgarwch lliniaru risg yn digwydd a'r effaith pe byddai'r risg yn digwydd. Mae'r risgiau lle ystyrir bod yr effaith bosibl yn uchel yn ffurfio cofrestr risg yr CGDG. Wedyn mae'r Bwrdd Rheoli'n rhoi'r dasg i'r uwch reolwyr (y 'perchenogion risg') o roi gweithdrefnau ar waith i fonitro risg, ac os yw'n bosibl, ei liniaru. Mae'r Bwrdd Rheoli'n adolygu effeithiolrwydd eu gwaith bob chwarter. Mae'r Pwyllgor Archwilio hefyd yn adolygu ac yn cwestiynu gweithgareddau perchenogion risg yn rheolaidd.

Mae gan yr CGDG bolisi risg gwybodaeth sydd i'w ddilyn gan bob aelod o staff – mae staff newydd yn ei ddarllen fel rhan o'u cyfnod sefydlu. Mae'r polisi, sy'n cael ei adolygu bob blwyddyn, yn mynnu bod pob data'n cael eu cadw'n ddiogel.

Yn 2008–09, ystyriodd yr CGDG mai'r canlynol yw'r meysydd risg mwyaf sylweddol:

- ein hincwm yn gostwng y tu hwnt i ddisgwyliadau;
- grantiau a ddyfarnwyd yn methu bodloni ein hamcanion strategol;
- ein strategaeth yn methu bodloni anghenion y dreftadaeth a'r newidiadau yn yr amgylchedd allanol, ac felly diffyg cefnogaeth iddi gan ein rhanddeiliaid;
- methu gosod a dilyn gweithdrefnau effeithlon gan achosi risg aneffeithlonrwydd, twyll neu wneud penderfyniadau sy'n agored i her;
- methu recriwtio, cadw a datblygu staff;
- diffyg cydnabyddiaeth ddigonol am gyfraniad Cronfa Dreftadaeth y Loteri/CGDG gan y rhai sy'n derbyn grantiau;

- bod cymorth a dylanwad yn lleihau o ganlyniad i lefel isel o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'n cyfraniad ymhlith rhanddeiliaid a'r cyhoedd sy'n chwarae'r Loteri;
- bod newidiadau i aelodau a chynrychiolaethau o'r Bwrdd a'r Pwyllgorau yn arwain at ddryswch ac anghysondeb yn y broses benderfynu.

Adolygu effeithiolrwydd

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Caiff fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol a'r uwch reolwyr yn yr CGDG sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, a sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill. Caf arweiniad gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Pwyllgor Archwilio, sy'n gweld adroddiadau gan yr archwilwyr mewnol ac allanol, ac mae cynllun ar waith i fynd i'r afael â gwendidau a sicrhau bod y system rheolaeth fewnol yn gwella'n barhaus.

Mae'r Pwyllgor Archwilio'n trafod holl adroddiadau'r archwilwyr mewnol ym mhresenoldeb uwch aelodau o staff. Mae'n ofynnol i benaethiaid adran y mae'r archwilwyr mewnol wedi nodi diffygion yn eu hadran, lunio cam cywirol a gosod dyddiad cwblhau ar gyfer y cam hwnnw mewn ymgynghoriad â'r archwilwyr mewnol. Caf adroddiadau rheolaidd gan yr archwilwyr sy'n rhoi gwybod i mi am y cynnydd y mae fy mhenaethiaid adran wedi'i gyflawni yn gwella'r pwyntiau a godwyd gan archwilwyr mewnol ac allanol.

Rwyf wedi ymchwilio i honiadau o amhriodoldeb mewn perthynas â chyfrifo'r codiad cyflog ar gyfer staff a gododd tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Ni chanfu archwiliad fforensig a gynhaliwyd gan dîm arbenigol o'n harchwilwyr mewnol (Grant Thornton) unrhyw dystiolaeth o dwyll neu amhriodoldeb. Fe wnaeth, fodd bynnag, nodi camgymeriadau yn y cyfrif dros nifer o

flynyddoedd. Fe allai'r camgymeriadau hyn fod wedi arwain at gytuno cymeradwyaethau tâl uwch na fyddid wedi'u cael fel arall, er nad ystyrir bod hyn yn sylweddol, a'i fod o fewn canllawiau'r Trysorlys o hyd. Mae argymhellion y tîm ar gyfer prosesau yn y dyfodol wedi'u trafod gan y Pwyllgor Archwilio, ac wedi'u derbyn a'u gweithredu'n llawn. Fe wnaethant nodi gwendidau rheoli hefyd mewn perthynas â didoli dyletswyddau a goruchwyliaeth. Mae adolygiad pellach o lywodraethu i'w gynnal yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol, a bydd yn nodi unrhyw feysydd eraill lle gall gwendidau tebyg fod yn bodoli.

O ganlyniad i'r uchod, nid wyf yn ymwybodol o unrhyw beth sy'n peri i mi gredu bod ein systemau ar gyfer canfod ac ymateb i aneffeithlonrwydd, ar gyfer atal gwrthdaro buddiannau, ar gyfer atal a chanfod twyll ac ar gyfer lleihau colledion cymorth grant a grant Loteri yn annigonol.

Carole Souter
Prif Weithredwr

7 Gorffennaf 2009

Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd a Senedd Yr Alban

Tystiaf fy mod wedi archwilio'r datganiadau ariannol o Weithgareddau Dosbarthu Arian y Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009 o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1993 (fel y diwygiwyd). Mae'r rhain yn cynnwys y Cyfrif Incwm a Gwariant, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian a'r Datganiad o Gyfanswm yr Enillion a'r Colledion Cydnabyddedig a nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a osodwyd allan ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Tâl y dywedir yn yr adroddiad hwnnw ei bod wedi'i harchwilio.

Cyfrifoldebau priodol yr Ymddiriedolwyr, y Prif Weithredwr a'r archwilydd Mae'r Ymddiriedolwyr a'r Prif Weithredwr, fel Swyddog Cyfrifyddu, yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynnyddol, yr Adroddiad Tâl a'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol 1993 (fel y diwygiwyd) a chyfarwyddiadau a wnaed o dan y Ddeddf honno gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gyda chaniatâd Trysorlys EM, ac am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol. Nodir y cyfrifoldebau hyn yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Prif Weithredwr.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Tâl i'w harchwilio yn unol â gofynion cyfreithiol a rheoleiddio perthnasol, ac yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon).

Adroddaf i chi fy marn ar ba un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg ac a yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Tâl i'w harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol 1993 (fel y diwygiwyd) a chyfarwyddiadau a wnaed o dan y Ddeddf honno gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gyda chaniatâd Trysorlys EM. Adroddaf i chi fy marn ar ba un a yw Sylwadau'r

Rheolwyr, a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynnyddol, yn gyson â'r datganiadau ariannol. Adroddaf hefyd a yw'r gwariant a'r incwm ym mhob ystyriaeth faterol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac a yw'r trafodion ariannol yn cydffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Yn ogystal, adroddaf i chi os nad yw Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol wedi cadw cofnodion cyfrifyddu priodol, os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer f'archwiliad, neu os na ddatgelir y wybodaeth a nodir gan Drysorlys EM ynghylch tâl a thrafodion.

Adolygaf a yw'r Datganiad ar Reolaeth Fewnol yn adlewyrchu cydymffurfiaeth Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ag arweiniad Trysorlys EM am y Datganiad am Reolaeth Fewnol, ac adroddaf os nad yw. Nid oes gofyn i mi ystyried a yw'r datganiad hwn yn ymdrin â phob risg a rheolaeth, nac i lunio barn am effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol na'i gweithdrefnau risg a rheoli.

Darllenaf y wybodaeth arall a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynnyddol ac ystyriaf a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Mae'r wybodaeth arall hon yn cynnwys y rhan o'r Adroddiad Tâl na chafodd ei harchwilio a'r holl rannau eraill o'r Adroddiad Blynnyddol ac eithrio Sylwadau'r Rheolwyr. Ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad i os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau amlwg neu anghysondebau materol gyda'r datganiadau ariannol. Nid yw fy nghyfrifoldebau'n ymestyn i unrhyw wybodaeth arall.

Sail barn yr archwiliad Cynhaliats fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon) a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae fy archwiliad yn cynnwys astudiaeth, ar sail brawf, o

dystiolaeth sy'n berthnasol i symiau, datgeliadau a rheoleidd-dra trafodion ariannol sy'n cael eu cynnwys yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Tâl i'w harchwilio. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r farn arwyddocaol a wnaed gan yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol, a ph'un a yw'r polisiau cyfrifyddu yn fwyaf priodol i amgylchiadau Gweithgareddau Dosbarthu'r Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol, yn cael eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais a chynhaliais fy archwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth ac esboniadau yr ystyriais fod eu hangen i gael digon o dystiolaeth i roi sicrhad rhesymol fod y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Tâl i'w harchwilio yn rhydd o gamddatganiad materol, p'un a achoswyd hynny drwy dwyll neu wall, a bod y gwariant a'r incwm ym mhob ystyriaeth faterol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Wrth lunio fy marn, rwyf hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynir y wybodaeth yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Tâl i'w harchwilio.

Barnau

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg, yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol 1993 (fel y diwygiwyd) a chyfarwyddiadau a wnaed o dan y Ddeddf honno gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gyda chaniatâd Trysorlys EM, o gyflwr Gweithgareddau Dosbarthu'r Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ar 31 Mawrth 2009 a'i diffyg ariannol, a'i henillion a'i cholledion cydnabyddedig a'i llifau arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;

- mae'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Tâl i'w harchwilio wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol 1993 (fel y diwygiwyd) a chyfarwyddiadau a wnaed o dan y Ddeddf honno gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gyda chaniatâd Trysorlys EM; ac
- mae Sylwadau'r Rheolwyr, a gynhwysir yn yr Adroddiad Blyneddol, yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Barn ar Reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ystyriaeth faterol, mae'r gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud am y datganiadau ariannol hyn.

Amyas CE Morse

Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

9 Gorffennaf 2009

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
151 Buckingham Palace Road
Victoria
London SW1W 9SS

Cyfrif Incwm a Gwariant ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2009

	Nodiadau	£'000	2008-09 £'000	2007-08 £'000
Enillion o'r Loteri Genedlaethol	9		208,196	200,394
Incwm buddsoddiad yr CDLG	9	9,882		15,396
Colled ar ailbrisio buddsoddiadau yn yr CDLG		(0)		(0)
			9,882	15,396
			218,078	215,790
Llai: swm a drosglwyddwyd i Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Olympaidd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon			(10,847)	0
			207,231	215,790
Llog sy'n dderbyniadwy		614		936
Incwm amrywiol	2	1,234	1,848	238
Cyfanswm incwm			209,079	216,964
Ymrwymadau caled newydd	11	(238,403)		(294,330)
Dad-ymrwymadau caled	11	8,585		14,002
			(229,818)	(280,328)
Costau staff	3	(9,698)		(10,271)
Dibrisiad	7	(270)		(280)
Costau gweithredu eraill	4	(10,527)		(10,030)
			(20,495)	(20,581)
Cyfanswm gwariant			(250,313)	(300,909)
Diffyg gweithredol			(41,234)	(83,945)

Mae'r holl ffigurau a ddangosir yn gysylltiedig â gweithgareddau parhaus.

Datganiad o Enillion a Cholledion Cydnabyddedig ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2009

	Nodyn	2008-09 £'000	2007-08 £'000
Enillion ailbrisiad ar y balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol	16	549	1,248

Mae'r nodiadau ar dudalennau 22 i 32 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon.

Mantolen

ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2009

	Nodiadau	£'000	2008-09 £'000	2007-08 £'000
Asedau Sefydlog				
Asedau sefydlog diriaethol	7		639	821
Asedau Cyfredol				
Buddsoddiadau – balans yn yr CDLG	9	452,562		567,428
Dyledwyr	8	3,293		931
Arian yn y banc ac mewn llaw		4,105		11
			459,960	568,370
Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	10		(2,246)	(2,823)
Ymrwymadau grant sy'n ddyledus mewn blwyddyn	11		(266,790)	(290,347)
Asedau cyfredol net			190,924	275,200
Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol			191,563	276,021
Ymrwymadau grant sy'n ddyledus mewn mwy na blwyddyn	11		(326,341)	(370,020)
Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a chostau	6		(4)	(98)
Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau			(134,782)	(94,097)
Cynrychiolir gan:				
Cronfa wrth gefn ailbrisiad	16		549	1,248
Cyfrif incwm a gwariant a ddygwyd ymlaen		(95,345)		(11,400)
Trosglwyddiad o'r gronfa ailbrisiad	16	1,248		0
Symudiad yn y flwyddyn		(41,234)	(135,331)	(83,945)
			(134,782)	(94,097)

Mae'r nodiadau ar dudalennau 22 i 32 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon.

Y Fonesig Jenny Abramsky **Carole Souter**
Cadeirydd Prif Weithredwr

7 Gorffennaf 2009

Datganiad Llif Arian ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2009

	Nodiadau	2008-09 £'000	2007-08 £'000
Gweithgareddau gweithredu			
Arian a dynnwyd o'r CDLG	9	322,646	309,867
Arian o ffynonellau eraill		563	238
Arian a dalwyd i gyflogeion ac ar eu rhan		(9,871)	(10,225)
Arian a dalwyd i gyflenwyr		(12,757)	(9,408)
Arian a gafwyd gan dderbynyddion benthychiad		0	0
Arian a dalwyd i dderbynyddion grant a benthychiad	11	(297,054)	(299,377)
Mewnlif/(all-lif) arian net o weithgareddau gweithredu			
	13a	3,527	(8,905)
Adenillion ar fuddsoddiad a gwasanaethu cyllid			
Llog a gafwyd ar gyfrifon banc		655	894
Gwariant cyfalaf a buddsoddiad ariannol			
	13b	(88)	(115)
Cynnydd/(gostyngiad) arian		4,094	(8,126)

Cysoni Llif Arian Net i Symudiad mewn Cronfeydd Net ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2009

	Nodyn	2008-09 £'000	2007-08 £'000
Cynnydd/(gostyngiad) arian yn y cyfnod		4,094	(8,126)
Newidiadau mewn cyllidau net	13c	4,094	(8,126)
Cyllidau net ar 1 Ebrill 2008		11	8,137
Cyllidau net ar 31 Mawrth 2009		4,105	11

Mae'r nodiadau ar dudalennau 22 i 32 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon.

Nodiadau i'r Cyfrifon

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009

1. Datganiad o bolisiau cyfrifyddu

a) Confensiwn cyfrifyddu

Llunnir y cyfrifon hyn mewn ffurf a gyfarwyddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac a gymeradwywyd gan y Trysorlys. Cânt eu paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol addasedig. Heb gyfyngu ar y wybodaeth a roir, mae'r cyfrifon yn bodloni gofynion cyfrifyddu a datgelu Deddf Cwmnïau 1985, arferion cyfrifeg gyffredinol dderbyniol yn y Deyrnas Unedig (UK GAAP) a'r gofynion datgelu a chyfrifyddu a gynhwysir yn y Canllaw Adrodd Ariannol (Frem), cyhyd â bod y gofynion hynny'n briodol. Mae Cyfarwyddyd Cyfrifon y Loteri Genedlaethol a gyhoeddwyd i CGDG ym mis Hydref 2002 gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn eithrio'n benodol paratoi cyfrifon cyfunol. Paratowyd y cyfrifon ar sail busnes byw gan fod yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi sicrhau'r Ymddiriedolwyr y byddant yn parhau i dderbyn cyllid gan y Loteri Genedlaethol hyd nes 2019 o leiaf. Mae copïau o Gyfarwyddiadau Cyfrifon y Loteri Genedlaethol ar gael gan Ysgrifennydd yr Ymddiriedolwyr, 7 Holbein Place, London SW1W 8NR.

b) Asedau sefydlog

Darperir dibrisiad ar sail llinell syth ar yr holl asedau sefydlog diriaethol, gan gynnwys y rheiny sy'n cael eu dal o dan brydlesi cyllid, ar gyfraddau a gyfrifwyd i ddileu cost neu brisiad pob ased yn ystod ei oes ddefnyddiol ddisgwyliedig. Mae'r oesoedd hyn fel a ganlyn:

Eiddo prydles fer	– oes y brydles
Offer TG	– 4–10 mlynedd
Gosodiadau swyddfa	– 4–10 mlynedd

c) Dyrannu costau

Caiff gweithrediadau Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol eu rhannu'n ddwy gronfa – sef Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a Chronfa Dreftadaeth y Loteri – gan adlewyrchu'r ddwy ffynhonnell incwm. Mae Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn mynd i gostau anuniongyrchol a rennir rhwng gweithgareddau a ariennir gan gymorth grant a gweithgareddau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol. Mae gofyn i Gronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ddosrannu'r costau anuniongyrchol hyn yn unol â'r Canllaw Ffioedd a Chostau a gyhoeddir gan y Trysorlys. Mae'r dosraniad cost hwn yn ceisio adlewyrchu cyfran benodol yr amser a'r costau a ymrwymwyd i'r ddwy gronfa. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, cyfran y costau ar y cyd a ddosrannwyd i Gronfa Dreftadaeth y Loteri oedd 99%. Adroddir am ganlyniadau Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol mewn cyfres o gyfrifon ar wahân.

d) Trethiant

Ni wneir unrhyw ddarpariaeth ar gyfer trethiant cyffredinol gan fod Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn statudol eithriedig. Nid yw Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn gallu adennill Treth Ar Werth a godir arni a chaiff y gost TAW gynhwysol ei chynnwys o dan y penawdau gwariant perthnasol.

e) Pensiwn

Caiff cost reolaidd darparu buddion ei chodi ar y cyfrif incwm a gwariant yn ystod oesoedd gwasanaeth aelodau'r cynllun ar sail canran gyson o dâl pensiynadwy. Mae staff yn aelodau o PCSPS a hysbysir canran y tâl pensiynadwy gan Swyddfa'r Cabinet ar ddechrau pob blwyddyn ariannol. Mae un aelod o staff, sydd bellach wedi ymddeol, nad oedd yn PCSPS. Cynhaliwyd darpariaeth ar wahân ar gyfer ei daliadau pensiwn ef. Nid yw'r CGDG wedi dilyn FRS17 o ran cael prisiad actiwaraidd o rwymedigaethau pensiwn yr unigolyn hwn, oherwydd cost cael prisiad felly.

f) Prydlesi

Codir y rhent blynyddol ar brydlesi gweithredol ar y cyfrif incwm a gwariant ar sail llinell syth yn ystod cyfnod y brydles.

g) Balansau yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol

Mae'r balansau sy'n cael eu dal yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn parhau o dan reolaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Fodd bynnag, mae cyfran y balansau hyn i'w phriodoli i Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol fel y dangosir yn y cyfrifon ac, ar ddyddiad y fantolen, wedi'i thystio gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ei bod ar gael i'w dosbarthu gan yr Ymddiriedolwyr o ran ymrwymadau cyfredol ac ymrwymadau'r dyfodol.

h) Ymrwymadau Grant

Mae ymrwymadau "meddal", fel y diffinnir gan Gyfarwyddyd Cyfrifon yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, yn cynrychioli penderfyniadau cadarnhaol a wneir gan Ymddiriedolwyr yn amodol ar gwblhau contract yn llwyddiannus. Pan fydd y ddwy ochr wedi llofnodi'r contract, disgrifir bod yr ymrwymiad yn "galed". Mae dad-ymrwymadau meddal yn digwydd pan nad yw dyfarniad neu rhan-ddyfarniad yn cael ei droi'n ymrwymiad caled – fel arfer gan fod y sawl sy'n derbyn y grant yn penderfynu peidio ag ymgymryd â'i brosiect. Mae dad-ymrwymadau caled yn digwydd pan nad oes angen ar y prosiect sy'n cael ei ariannu yr holl arian a neilltuwyd ar ei gyfer o dan y contract. Mae'r holl ymrwymadau grant yn daladwy ar unwaith pan dderbynnir ceisiadau dilys am daliad.

i) Benthyciadau

Mae hawl gan yr Ymddiriedolwyr wneud benthyciadau i gyrff treftadaeth o dan Gyfarwyddiadau Ariannol yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae cyfraddau llog a thelerau ad-dalu fel y gwêl yr Ymddiriedolwyr yn ddoeth.

2. Incwm amrywiol

	2008-09 £'000	2007-08 £'000
Ad-dalu grantiau	1,234	238

3. Costau a niferoedd staff

	2008-09 £'000	2007-08 £'000
Cyflogau	7,554	7,875
Taliadau YG y cyflogwr	525	533
Taliadau i gynllun pensiwn (gweler nodyn 6)	1,387	1,493
Costau staff dros dro	232	370
	9,698	10,271

Roedd nifer gyfartalog y cyflogeion yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

2008-09	Ceisiadau grant	Cyllid a gweinyddu	Ymchwil a Pholisi	Cysylltiadau Cyhoeddus	Cyfanswm
Staff parhaol	153	35	26	16	230
Seondeion, staff dros dro a staff contract	16	2	1	3	22
Cyfanswm	169	37	27	19	252

Nodiadau i'r Cyfrifon
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009

2007-08	Ceisiadau grant	Cyllid a gweinyddu	Ymchwil a Pholisi	Cysylltiadau Cyhoeddus	Cyfanswm
Staff parhaol	159	36	25	17	237
Seondeion, staff dros dro a staff contract	14	4	2	3	23
Cyfanswm	173	40	27	20	260

Sylwer bod ffigurau cymharol wedi'u newid i adlewyrchu trosglwyddiad adran o fewn yr Adran Gweithrediadau i'r adran Polisi a Datblygiad Strategol ar 1 Ebrill 2008. Mae mân newidiadau eraill wedi digwydd i'r ffigurau cymharol i adlewyrchu'r gofyniad i ddatgelu ffigurau fel cyfwerthoedd amser llawn yn hytrach na nifer y gweithwyr.

4. Diffyg gweithredol

Nodir y diffyg gweithredol ar ôl codi'r canlynol:

	2008-09 £'000	2007-08 £'000
Tâl yr archwilydd gan gynnwys gwaith ar baratoi ar gyfer y Safonau Rhyngwladol ar Adrodd Ariannol	42	36
Taliadau o dan brydlesi gweithredol		
- safle prydles	1,340	1,353
- llogi offer swyddfa	51	25

Mae dadansoddiad o gostau gweithredu eraill, gan gynnwys yr eitemau uchod, fel a ganlyn:

	2008-09 £'000	2007-08 £'000
Llety	2,191	2,147
Post a ffôn	488	383
Cyflenwadau swyddfa, argraffu a deunydd ysgrifennu	237	164
Teithio, cynhaliath a lletygarwch - Ymddiriedolwyr	118	120
Teithio, cynhaliath a lletygarwch - staff	345	387
Ffioedd proffesiynol - cysylltiedig â grant	3,180	3,535
Ffioedd proffesiynol - heb fod yn gysylltiedig â grant	2,001	1,496
Cysylltiadau cyhoeddus a chyfathrebu	1,263	1,250
Offer swyddfa	323	292
Hyfforddiant staff	211	200
Costau amrywiol	170	56
	10,527	10,030

5. Costau a ailgodir

Fel y datgelwyd yn nodyn 1 i'r cyfrifon hyn, mae gofyn i Gronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ddatgelu ei chostau dosbarthu'r Loteri yng nghyfrifon Cronfa Dreftadaeth y Loteri. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, cyfran y costau ar y cyd a ddosrannwyd oedd 99%. Ym mis Ebrill 2002, trosglwyddwyd holl weithgareddau Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol i Holbein Place, Llundain. O ganlyniad, mae costau gweithredu'r holl swyddfeydd eraill yn cael eu hailgodi'n llawn ar Gronfa Dreftadaeth y Loteri.

6a. Pensiynau

Darperir budd-daliadau pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Ers 30 Gorffennaf 2007, mae staff newydd heb unrhyw aelodaeth PCSPS flaenorol yn gallu ymuno â Nuvos. Mae hwn yn gynllun pensiwn budd-dâl diffiniedig sy'n gysylltiedig â'r mynegai. Y gyfradd gyfrannu yw 3.5% i aelodau ar hyn o bryd, a bydd yn darparu pensiwn budd-dâl diffiniedig gydag oed pensiwn o 65.

Mae'r staff a ymunodd cyn 30 Gorffennaf 2007, neu oedd yn berchen ar aelodaeth PCSPS cymwys o'r blaen wrth ymuno ers y dyddiad hwnnw, yn aros yn un o un o dri chynllun â buddion wedi'u diffinio "cyflog terfynol" statudol (classic, premium a classic plus). Nid yw'r cynlluniau'n cael eu hariannu ac mae cost y buddion yn cael eu talu gan arian a bleidleisir gan y Senedd bob blwyddyn. Caiff pensiynau sy'n daladwy o dan classic, premium, a classic plus eu cynyddu'n flynyddol yn unol â newidiadau yn y Mynegai Prisiau Adwerthu.

Gosodir cyfraniadau cyflogeion ar y gyfradd o 1.5% o enillion pensiynadwy ar gyfer classic a 3.5% ar gyfer premium a classic plus. Mae buddion yng nghynllun classic yn cronni ar gyfradd o 1 rhan o 80 o gyflog pensiynadwy ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n gyfwerth â thair blynedd o bensiwn yn daladwy ar ymddeoliad. Ar gyfer premium, mae buddion yn cronni ar gyfradd 1 rhan o 60 o enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i classic, nid oes unrhyw gyfandaliad awtomatig (ond gall aelodau ildio (cymudo) rhywfaint o'u pensiwn i ddarparu cyfandaliad). I bob pwrpas, mae classic plus yn amrywiad o premium, ond gyda buddion o ran gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras yn yr un ffordd â chynllun classic.

Y trefniant pensiwn arall yw'r Cyfrif Pensiwn Partneriaeth sy'n drefniant Pensiwn Rhanddeiliaid. Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn rhanddeiliaid gyda chyfraniad gan y cyflogwr. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 3% a 12.5% (gan ddibynnu ar oedran yr aelod) i gynnyrch pensiwn rhanddeiliaid a ddewisir gan y cyflogai. Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu ond os bydd yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn cyfateb y rhain hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8% pellach o gyflog pensiynadwy at PCSPS i dalu cost yswiriant budd risg cyfandaliad a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeoliad yn sgil salwch). Ar hyn o bryd, mae pump o aelodau staff â chyfrif pensiwn partneriaeth. Ni wnaeth unrhyw aelod o staff ymddeol yn gynnwys ar sail iechyd yn ystod 2008–09.

Gellir gweld mwy o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil, sy'n paratoi ei ddatganiadau cynllun ei hun, ar y wefan www.civilservice-pensions.gov.uk.

Er bod y cynlluniau'n gynlluniau â buddion wedi'u diffinio, mae rhwymedigaeth i dalu buddion yn y dyfodol yn gost i'r PCSPS. Mae adrannau, asiantaethau a chyrff eraill a sicrhewir gan y PCSPS yn talu cost sicrhad pensiwn a ddarperir i'r staff a gyflogant drwy dalu costau a gyfrifir ar sail gronnydd. Ar gyfer 2008–09, talwyd cyfraniadau cyflogwr o £1,441,760 (2007–08: £1,493,316) i'r PCSPS ar y cyfraddau a nodir yn y tabl isod. Caiff cyfraniadau cyflogwr eu hadolygu bob pedair blynedd ar ôl prisiad cynllun llawn gan actwari'r cynllun. Mae'r cyfraddau cyfrannu'n adlewyrchu buddion wrth iddynt gronni, nid pan achosir y costau mewn gwirionedd, ac yn adlewyrchu profiad blaenorol o'r cynllun.

Cyfrifwyd taliadau'r cyflogwr ar sail bandiau cyflog, fel a ganlyn:

Cyflog yn 2008–09	% yn 2008–09
£19,000 ac is	17.1%
£19,001–£39,000	19.5%
£39,001–£66,500	23.2%
£66,501 ac uwch	25.5%

Yn 2005–06, ymddeolodd yr un aelod o staff a oedd wedi parhau'n aelod o gynllun Joint Superannuation Services (JSS). Roedd JSS wedi rhoi manylion i'r Gronfa am y darpariaethau disgwylid y byddai gofyn i'r Gronfa eu gwneud bob blwyddyn er mwyn i'r Gronfa allu talu'r rhwymedigaethau pensiwn a fydd yn cronni o dan y cynllun. Y tro diwethaf y rhoddwyd cyngor felly oedd 31 Mawrth 1998. Mae'r cynllun yn gynllun â buddion wedi'u diffinio. Byddai'r taliadau pensiwn a wneir i'r cyn-gyflogai hwn wedi cael eu talu o adnoddau arian y Gronfa, ac nid drwy'r JSS, nad oes unrhyw asedau ganddo. Er bod y pensiynwr yn cael ei daliadau pensiwn, nid yw'r CGDG wedi ad-dalu gweinyddwr pensiwn PCSPS eto (sy'n gweithredu'r cynllun ar ran JSS) gan nad yw wedi gofyn am y cyllid eto. Gan ystyried sicrhad gan PCSPS nad oes unrhyw rwymedigaeth yn bodoli ar yr CGDG, mae'r ddarpariaeth wedi'i hadfer yn ôl. Nid yw cyflogaion newydd Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn ymuno â'r JSS, ond yn hytrach yn ymuno â'r PCSPS. Yn ogystal, yn ystod 2007–08, fe wnaeth dau aelod o staff ymddeol yn gynnar (ni ymddeolodd yr un aelod o staff yn 2008–09). CGDG sy'n talu cost ymddeoliad cynnar nes bod pobl yn cyrraedd 60 oed, ac yna'r PCSPS sy'n ysgwyddo cost y pensiwn.

6b. Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau a chostau

	2008-09 £'000	2007-08 £'000
Darpariaeth ar 1 Ebrill 2008	98	77
Darpariaeth ymddeoliad cynnar	0	54
Darpariaeth wedi'i hadfer yn ôl	(55)	0
Taliadau pensiwn a wnaed	(39)	(33)
Darpariaeth ar 31 Mawrth 2009	4	98

7. Asedau sefydlog diriaethol

	Gwelliannau i Eiddo Prydles Fer £'000	Offer TG £'000	Gosodiadau Swyddfa £'000	Cyfanswm £'000
Cost ar 1 Ebrill 2008	2,073	1,527	58	3,658
Ychwanegiadau	0	88	0	88
Gwaredu	0	(130)	0	(130)
ar 31 Mawrth 2009	2,073	1,485	58	3,616
Dibrisiad ar 1 Ebrill 2008	1,520	1,260	57	2,837
Cost am y flwyddyn	155	114	1	270
Addasiad ar waredu	0	(130)	0	(130)
ar 31 Mawrth 2009	1,675	1,244	58	2,977
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2008	553	267	1	821
ar 31 Mawrth 2009	398	241	0	639

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi ystyried gwerth yr asedau sefydlog ac yn fodlon nad oedd eu gwerth, ar 31 Mawrth 2009, yn llai na'u gwerth llyfr net a ddangosir yn y cyfrifon. Ni ddaliwyd unrhyw asedau o dan brydlesi cyllid. Mae gwerth asedau sefydlog yn cynrychioli rhaniad cymesur o'r asedau a ddefnyddir gan Gronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a Chronfa Dreftadaeth y Loteri. Mewn adolygiad o werthoedd cost gyfredol asedau sefydlog, ar 31 Mawrth 2009, ni ddatgelwyd unrhyw wahaniaeth materol i werthoedd cost hanesyddol. O ganlyniad, ni wnaed unrhyw addasiad yn y cyfrifon hyn i adlewyrchu gwerthoedd cost gyfredol. Mae'r gwelliannau i eiddo prydles fer yn cynnwys costau addasu ac ailwampio yn safleoedd Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol, sy'n cael eu dal o dan brydlesi gweithredol.

8. Dyledwyr

	2008-09 £'000	2007-08 £'000
Rhagdaliadau ac incwm cronedig	600	625
Dyledwyr eraill	2,634	253
Blaensymiau staff	59	53
	3,293	931

Mae dyledwyr eraill yn cynnwys swm o £424,500 sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn (2007-08: £dim). Mae hyn yn cynrychioli ad-daliad rhannol o grant yn dilyn newid mewn amgylchiadau grantî. Mae amserlen ad-dalu wedi'i chytuno a derbyniwyd y taliad cyntaf ar 31 Mawrth. O'r symiau uchod, roedd £1,959,000 yn ddyledus gan gyrff llywodraeth ganolog a £1,000 gan awdurdodau lleol. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd gan 64 aelod o staff flaensymiau cyflogres yn ddyledus (ar 31 Mawrth 2008, roedd 58).

9. Buddsoddiadau

Symudiadau balansau yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol:

	2008-09 £'000	2007-08 £'000
Cost gyfredol ar 1 Ebrill 2008	567,428	660,257
Incwm a gafwyd gan y Loteri Genedlaethol	208,196	200,394
Cyllid a dynnwyd i lawr	(322,646)	(309,867)
Cyllid a drosglwyddwyd i Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Olympaidd	(10,847)	0
Adenilliad buddsoddiad	9,882	15,396
Enillion heb eu gwireddu ar fuddsoddiad	549	1,248
Cost gyfredol ar 31 Mawrth 2009	452,562	567,428

Nid oes unrhyw rwymedigaeth i drethiant ar enillion a wireddir gan yr CGDG. Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon sy'n buddsoddi'r arian hwn ac sy'n dirprwyo rheolaeth i'r Comisiynwyr dros Leihau'r Ddyled Genedlaethol, sy'n ychwanegu eu hadnillion at y balans sy'n cael ei ddal. Nid oes gan Ymddiriedolwyr yr CGDG unrhyw reolaeth ar bolisi buddsoddi. Mae'r datganiad o bolisiau cyfrifyddu'n cynnwys mwy o wybodaeth am y mater hwn.

10. Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

	2008-09 £'000	2007-08 £'000
Credydwyr gweithredol	1,235	1,252
Credydwyr eraill gan gynnwys trethiant a nawdd cymdeithasol	334	332
Croniadau ac incwm gohiriedig	677	1,239
	2,246	2,823

Ni sicrhawyd unrhyw un o rwymedigaethau Cronfa Dreftadaeth y Loteri. Gellir dadansoddi balansau credydwyr gweithredol fel a ganlyn:

	2008-09 £'000	2007-08 £'000
Balansau sy'n ddyledus i lywodraeth ganolog	250	222
Balansau sy'n ddyledus i awdurdodau lleol	27	73
Balansau sy'n ddyledus i gorfforaethau cyhoeddus	0	0
Balansau allanol i lywodraeth	958	957
	1,235	1,252

11. Ymrwymiadau grant

Ymrwymiadau caled

	2008-09 £'000	2007-08 £'000
Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill	660,367	679,416
Trosglwyddiadau o ymrwymiadau meddal	238,403	294,330
Dad-ymrwymiadau	(8,585)	(14,002)
Ymrwymiadau a dalwyd	(297,054)	(299,377)
Cariwyd ymlaen ar 31 Mawrth	593,131	660,367

Ymrwymiadau meddal

	2008-09 £'000	2007-08 £'000
Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill	354,800	399,710
Ymrwymiadau meddal a wnaed	150,876	283,973
Dad-ymrwymiadau meddal	(10,689)	(34,553)
Trosglwyddiadau i ymrwymiadau caled	(238,403)	(294,330)
Balans a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth	256,584	354,800

Mae'r balans ar ddiwedd y flwyddyn yn cynrychioli symiau sy'n ddyledus i ymgeiswyr yn y cyfnodau canlynol:

Ymrwymiadau caled

	2008-09 £'000	2007-08 £'000
mewn blwyddyn	266,790	290,347
mewn dwy i bum mlynedd	326,341	370,020
mewn mwy na phum mlynedd	0	0
	593,131	660,367

Mae'r balans ymrwymiadau caled ar ddiwedd y flwyddyn yn cynrychioli symiau sy'n ddyledus fel a ganlyn:

	2008-09 £'000	2007-08 £'000
Balansau sy'n ddyledus i lywodraeth ganolog	60,751	64,827
Balansau sy'n ddyledus i awdurdodau lleol	299,311	317,647
Balansau sy'n ddyledus i gorfforaethau cyhoeddus	16,856	17,583
Balansau allanol i lywodraeth	216,213	260,310
	593,131	660,367

12. Ymrwymiadau

Mae ymrwymiadau blynyddol Cronfa Dreftadaeth y Loteri o dan brydlesi gweithredol fel a ganlyn:

	2008-09 £'000	2007-08 £'000
Eiddo prydles fer		
A ddaw i ben ymhen blwyddyn	372	54
A ddaw i ben ym mlynnyddoedd dau i bump	436	1,166
A ddaw i ben wedi hynny	151	154
	959	1,374
Prydlesi gweithredol eraill		
A ddaw i ben ymhen blwyddyn	1	11
A ddaw i ben ym mlynnyddoedd dau i bump	63	12
A ddaw i ben wedi hynny	0	0
	64	23

Nid oes gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri unrhyw ymrwymiadau cyfalaf y contractiwyd ar eu cyfer, nac ymrwymiadau cyfalaf a gymeradwywyd ond na chontractiwyd ar eu cyfer.

13. Nodiadau i'r datganiad llif arian

a) Cysoni diffyg gweithredol i all-lif arian o weithgareddau gweithredu

	2008-09 £'000	2007-08 £'000
Diffyg gweithredol	(41,234)	(83,945)
Llai: llog sy'n dderbyniadwy	(614)	(936)
Ychwanegu'n ôl eitemau nad ydynt yn arian:		
- dibrisiad	270	280
- colled ar werthu asedau sefydlog	0	0
- (gostyngiad)/cynnydd mewn darpariaethau eraill	(94)	21
- balans ar y gronfa wrth gefn ailbrisiad	549	1,248
- gostyngiad yn y gronfa wrth gefn ymrwymiad grant	(67,236)	(19,049)
- gostyngiad yn y balans yn yr CDLG	114,866	92,829
(Cynnydd)/gostyngiad mewn dyledwyr di-log	(2,403)	323
(Gostyngiad)/cynnydd mewn credydwyr di-gyfalaf	(577)	324
All-lif arian net o weithgareddau gweithredu	3,527	(8,905)

b) Gwariant cyfalaf

	2008-09 £'000	2007-08 £'000
Taliadau i gael asedau sefydlog diriaethol	88	115

c) Dadansoddi newidiadau mewn cyllid net

	1 Ebrill 2008 £'000	Llifoedd arian £'000	31 Mawrth 2009 £'000
Arian yn y banc	11	4,094	4,105

14. Trafodion parhion perthynol

Mae Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn gorff cyhoeddus anadrannol a noddir gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Ystyrir bod yr adran hon yn barti perthynol. Yn ystod y flwyddyn, mae Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (gan gynnwys ei gweithgareddau dosbarthu'r Loteri) wedi cael trafodion materol amrywiol, heblaw dyfarniadau grantiau, â'r Adran ac endidau eraill yr ystyrir mai'r Adran hon sy'n eu noddi, sef y Gronfa Loteri Fawr ac English Heritage. Fe wnaeth y Gronfa Loteri Fawr weithredu'r cynllun Arian i Bawb ar ran nifer o ddosbarthwyr y Loteri, a gwnaethom gyfraniad tuag at eu costau gweinyddol. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri ddyled o £13,000 i'r Gronfa Loteri Fawr, gan gynnwys croniadau ar gyfer anfonebau heb eu derbyn. Cyfrannodd y Gronfa Loteri Fawr tuag at y grantiau a wnaed o dan ein rhaglen *Parciau i Bobl*, a thuag at eu costau gweinyddol hefyd. Fe wnaethant hefyd gyfrannu at gost rhedeg Fforwm y Loteri, sy'n cael ei weinyddu gan yr CGDG ar hyn o bryd. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd gan y Gronfa Loteri Fawr ddyled o £1,906,000. Mae English Heritage yn gweithredu'r Grantiau Atgyweirio ar gyfer y rhaglen *Mannau Addoli*, ac yn darparu cyngor arbenigol ar geisiadau a dyfarniadau grant amrywiol. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd £197,000 yn ddyledus iddynt, gan gynnwys croniadau ar gyfer anfonebau heb eu derbyn.

Yn ogystal, mae Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (gan gynnwys ei gweithgareddau dosbarthu'r Loteri) wedi cael nifer o drafodion materol gydag adrannau Llywodraeth eraill. Bu'r trafodion hyn â'r Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio ac endidau sy'n ystyried mai Cynulliad Cenedlaethol Cymru (sef Cadw) yw eu rhiant-adran. Mae Cadw yn darparu cyngor arbenigol ar geisiadau a dyfarniadau grant amrywiol. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd £5,000 yn ddyledus iddynt, gan gynnwys croniadau ar gyfer anfonebau heb eu derbyn.

Mae Liz Forgan, cyn-gadeirydd yr Ymddiriedolwyr, yn gadeirydd ymddiriedolaeth sy'n berchen ar grŵp papur newydd. Gwariodd yr CGDG £23,244 gyda'r sefydliad hwn trwy drydydd parti tra'r oedd yn gadeirydd yr Ymddiriedolwyr. Cafodd Veryan Heal, aelod o'r pwyllgor ar gyfer y de orllewin, swydd gydag English Heritage yn ystod y flwyddyn. Gwariodd Cronfa Dreftadaeth y Loteri £778,265 ar wasanaethau gweinyddol gydag English Heritage yn ystod 2008–09. Bu Chris Baines, aelod o banel arbenigol yr Ymddiriedolwyr ar gyfer ceisiadau Loteri, yn darparu gwasanaethau monitro prosiect i Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar un grant am gost o £620. Fe wnaeth Alison Millward, a benodwyd i banel arbenigol yr Ymddiriedolwyr ar geisiadau Loteri yn ystod y flwyddyn, ddarparu gwasanaethau monitro prosiect i Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar nifer o grantiau, ynghyd â chymorth i gynhyrchu taflen bolisi. Am y gwaith hwn, derbyniodd £8,103 yn y cyfnod ar ôl iddi gael ei phenodi i'r panel.

Fel y nodir isod, roedd gan Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol fuddiannau mewn cyrff y gwnaed grantiau Loteri iddynt gan CGDG. Yn yr un modd, roedd gan aelodau'r pwyllgorau gwlad a rhanbarth fuddiannau mewn cyrff a gafodd grantiau Loteri gan eu pwyllgor neu gymeradwyaethau i Ymddiriedolwyr. Mae'r Ymddiriedolwyr yn fodlon na chafodd yr unigolion unrhyw ddylanwad ar y broses benderfynu.

Bwrdd yr Ymddiriedolwyr
Awdurdod Parc Cenedlaethol Exmoor
Grant o £69,700 a phas cam un o £912,500 – Exmoor Moorland Landscape Partnership. Datganwyd diddordeb gan Doug Hulyer, sydd ar Fwrdd Natural England. Hefyd, mae gan aelod o'r pwyllgor, Christopher Pennell, gysylltiadau â Natural England.

Ymddiriedolaeth Elusennol Great Dixter
Grant o £3,797,000 – Prosiect Cadwraeth Great Dixter. Mae Christopher Woodward yn Gyfarwyddwr yr Amgueddfa Hanes Gerddi sydd â phartneriaeth weithio gyda'r

grantî. Mae Matthew Saunders yn ffrind i Ymddiriedolwr y grantî.

Cyngor Sir Dwyrain Sussex

Grant o £1,920,000 – Weald Forest Ridge Landscape Partnership. Datganwyd diddordeb gan Doug Hulyer, sydd ar Fwrdd Natural England, gan fod Natural England yn un o arianwyr y bartneriaeth. Hefyd, mae gan aelod o'r pwyllgor, Christopher Pennell, gysylltiadau â Natural England. Datganodd Chris Corrigan ddiddordeb am ei fod yn Gyfarwyddwr Rhanbarthol y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, a oedd yn un o'rartneriaid ac yn berchennog rhan o'r tir sydd i'w adfer.

Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Pas cylch cyntaf o £1,500,000 – Opening the door to a new Stowe – The Landscape Garden. Datganwyd diddordeb gan Keith Halstead fel Cyn Gyfarwyddwr Rhanbarthol yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Datganodd Hilary Lade ddiddordeb am ei bod yn gyn aelod o gyngor yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae Richard Wilkin yn Gadeirydd rhanbarth Ymddiriedolaeth Genedlaethol Wessex.

Ymddiriedolaeth Cadwraeth Stowe House

Grant o £12,500 a phas rownd un o £3,112,500 – A Shared Vision for Stowe – Transforming the Experience. Datganwyd diddordeb gan Keith Halstead fel cyn Gyfarwyddwr Rhanbarthol yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, y byddai'r ymgeisydd yn gweithio'n agos ag ef. Roedd Hilary Lade yn gyn aelod o gyngor yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae Richard Wilkin yn Gadeirydd rhanbarth Ymddiriedolaeth Genedlaethol Wessex.

Oriel Watts

Grant o £4,377,000 Watts Gallery Hope Project. Mae Tristram Hunt yn perthyn i Gyfarwyddwr yr oriel.

Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Wigan

Grant o £12,000 a phas rownd un o £1,972,000 – Wigan, Mesnes Park Phase B. Datganwyd diddordeb gan Ian Bancroft fel cyflogai diweddar i'r grantî. Gwnaeth Mike Emmerich ddatganiad generig o ddiddordeb am fod awdurdodau lleol Greater Manchester (sy'n cynnwys Wigan) i ddod

yn berchnogion Manchester Enterprises lle'r oedd yn Brif Weithredwr.

Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt ar gyfer Swydd Bedford, Swydd Gaergrawnt, Swydd Northampton a Peterborough

Grant o £7,204,000 – Restoring our Fenland Heritage – prynu ac adfer Ystad Holmewood. Datganwyd diddordeb gan Dough Hulyer, sydd ar Fwrdd Natural England, gan fod Natural England yn un o bartneriaid y prosiect. Hefyd, mae gan aelod o'r pwyllgor, Christopher Pennell, gysylltiadau â Natural England, ac mae aelod arall o'r pwyllgor, Michael Allen, yn gadeirydd cyngor y grantî.

Aelodau pwyllgor

Ymddiriedolaeth Ddatblygu

Partneriaeth Wayland

Grant o £124,000 – Capturing Our Wayland Heritage. Datganwyd diddordeb gan Anne Mason am fod disgwyl iddi gynnig am waith gyda'r prosiect pe bai'r cais yn llwyddiannus.

Amgueddfa Swydd Gaerhirfryn

Pas rownd gyntaf o £696,600 – Renovation, Restoration and Reinterpretation. Datganwyd diddordeb gan Edmund Southworth am ei fod yn cael ei gyflogi gan Gyngor Sir Swydd Gaerhirfryn, y sefydliad sy'n gwneud y cais.

Diwylliant a Chwaraeon Glasgow

Grant o £150,000 – Paentiad olew 'Stirling Station' gan William Kennedy. Datganwyd diddordeb gan Bridget McConnell, yn ei rhinwedd fel Prif Weithredwr Diwylliant a Chwaraeon Glasgow.

Llyfrgell Menywod Glasgow

Grant o £410,000 – Archif Menywod, Yr Alban. Datganwyd diddordeb gan Bridget McConnell, yn ei rhinwedd fel Prif Weithredwr Diwylliant a Chwaraeon Glasgow.

Prifysgol Aberdeen

Pas rownd gyntaf o £875,000 – Llyfrgell a Chanolfan Casgliadau Arbennig Prifysgol Aberdeen: Stiwdio Gadwraeth. Datganwyd diddordeb gan yr Athro Duncan Rice, Prifathro ac Is-Ganghellor Prifysgol Aberdeen, Llyfrgell a Chanolfan Casgliadau Arbennig Prifysgol Aberdeen.

Ymddiriedolaeth Charleston

Grant o £68,000 a phas rownd un o £1,850,000 – Charleston Barns Project. Datganwyd diddordeb gan Marilyn Scott am ei fod wedi helpu'r ymgeisydd gyda'i strategaeth codi arian.

English Heritage

Grant o £139,500 a phas rownd un o £1,139,000 – Wrest Park Revitalisation Project. Cafodd Veryan Heal swydd yn ddiweddar gydag English Heritage.

Cyngor Sir Cernyw

Grant o £1,850,000 – Caradon Hill Area Heritage Project. Mae Veryan Heal wedi cael swydd yn ddiweddar gydag English Heritage, sy'n darparu cyllid partneriaeth.

Prosiect St James Priory

Grant o £3,087,000 – Conservation and Development of St James Priory, Bryste. Mae Veryan Heal wedi cael swydd yn ddiweddar gydag English Heritage, sy'n darparu cyllid partneriaeth.

Cyngor Dinas Sheffield

Grant o £499,500 – Shepherd Wheel Conservation Project. Datganwyd diddordeb gan John Hamshire oherwydd ei swydd fel Cyfarwyddwr Gweithredol Ymddiriedolaeth Amgueddfeydd Diwydiannol Sheffield. Bydd Cyngor Dinas Sheffield yn gofyn i'r Ymddiriedolaeth i ysgwyddo gwaith rheoli'r safle ar ôl ei adfer. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi darparu gwybodaeth a ddefnyddiwyd yn y cynnig.

Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Rotherham

Grant o £81,900 a phas rownd un o £590,000 – Boston Castle, The Learning Tower of Rotherham. Datganwyd diddordeb gan Ken Wyatt am ei fod yn gynghorydd gyda Chyngor Bwrdeistref Metropolitan Rotherham.

Cyngor Dinas Nottingham

Grant o £181,500 a phas rownd un o £3,198,000 – Nottingham, Forest Recreation Ground. Datganwyd diddordeb gan Joan Bray am ei bod yn gyflogai i'r ymgeisydd.

Grantiau Atgyweirio ar gyfer Mannau Addoli yn Lloegr

Grant o £14.6miliwn a phasiau cam un o £11.9miliwn i 428 o sefydliadau ar wahân. Mae Veryan Heal wedi cael uwch swydd yn ddiweddar gydag English Heritage, yr ydym yn rhedeg y rhaglen grantiau hon gyda hwy. O dan y rhaglen hon, ystyrir bod yr holl ddyfarniadau i adeiladau gradd 1 a gradd 2* fel rhai sy'n cael eu hariannu ar y cyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri ac English Heritage.

Eglwys Gadeiriol Truro

Grant o £13,300 a phas rownd gyntaf o £400,000 – Inspire Cornwall. Mae Veryan Heal wedi cael swydd yn ddiweddar gydag English Heritage, sy'n darparu cyllid partneriaeth.

15. Offerynnau ariannol

Mae datgeliad llawn o dan FRS29 Datgenlai Offerynnau Ariannol yn Sylwadau'r Rheolwyr

16. Cronfa wrth gefn ailbrisio

	2008-09 £'000	2007-08 £'000
Ar 1 Ebrill	1,248	0
Gwireddu'r enillion ailbrisio ar falans CDLG	(1,248)	0
Enillion ailbrisio ar ddiwedd y flwyddyn ar CDLG	549	1,248
Ar 31 Mawrth	549	1,248

Mae'r gronfa wrth gefn yn ymwneud â'r gwahaniaeth rhwng gwerth llyfr a gwerth marchnad y balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (gweler nodyn 9). Nid yw'r gwahaniaeth rhwng gwerth llyfr a gwerth marchnad asedau sefydlog (gweler nodyn 7) yn berthnasol.

Cyfarwyddiadau Polisi

Mae'r Llywodraeth yn cyhoeddi cyfarwyddiadau polisi i Gronfa Dreftadaeth y Loteri o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1993. Ar ôl ymgynghoriad y Llywodraeth ar ddyfodol incwm achosion da'r Loteri yn 2005–06, derbyniodd Cronfa Dreftadaeth y Loteri gyfarwyddiadau diwygiedig a ddaeth i rym yn 2008. Fel o'r blaen, mae'r rhain yn faterion sydd i'w hystyried wrth ddosbarthu arian. Ar yr un pryd, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gyfarwyddiadau polisi yn ymwneud ag arian a ddosberthir yng Nghymru; mae'r rhain yn cyd-fynd â chyfarwyddiadau'r DU, ac fe'u hatgynhyrchir yn llawn ar dudalennau 39–40

a) Anghenion y dreftadaeth

"Asesiad (Cronfa Dreftadaeth y Loteri) o anghenion y dreftadaeth genedlaethol a'u blaenoriaethau ar gyfer mynd i'r afael â nhw."

Cafodd y cynllun strategol cyfredol, *Trysori ein treftadaeth, buddsoddi yn ein dyfodol*, a lansiwyd ym mis Ebrill 2008, ei lywio gan asesiad o anghenion a gynhaliwyd mewn partneriaeth â'r cyrff strategol arweiniol ar gyfer y sector treftadaeth. Dangosodd hyn angen sylweddol am gyllid ar draws ystod eang o faterion, na allai neu na fyddai'r cyfan ohonynt yn cael eu diwallu gan arian y Loteri.

Dangosodd ein hymgyngghoriad cyhoeddus ar ein strategaeth, *Ein Treftadaeth Ni, Ein Dyfodol Ni*, bod cefnogaeth gref iawn i dri nod strategol Cronfa Dreftadaeth y Loteri, sef cadwraeth, cyfranogiad a dysgu fel blaenoriaethau i'n cyllid, ac mae'r rhain yn tanategu ffocws ein holl raglenni grant ar warchod, cynnal a rhannu treftadaeth. Dangosodd ein partneriaid a'n rhanddeiliaid hefyd eu bod yn dymuno i Gronfa Dreftadaeth y Loteri barhau i ariannu prosiectau o bob math a maint, ar draws ystod llawn treftadaeth y DU, ac mae hyn wedi llywio ein hymagwedd bresennol.

b) Cynnwys y cyhoedd

"Yr angen i gynnwys y cyhoedd a chymunedau lleol wrth lunio polisiâu, pennu blaenoriaethau a dosbarthu arian."

Wrth ddatblygu ein strategaeth gyfredol, fe wnaethom ymgynghori â'r cyhoedd sy'n chwarae'r loteri, er mwyn cael safbwynt y 'defnyddiwr olaf' ar y prosiectau a ariennir gennym, i gyfrannu at ein polisi a'n harfer, ac i gynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o'n gwaith. Gwnaethpwyd hyn drwy'r ymgynghoriad *Ein Treftadaeth Ni, Ein Dyfodol Ni* a thrwy'r 'rheithgorau dinasyddion' a arfarnodd werth a buddion treftadaeth a phrosiectau a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Roedd y casgliadau'n debyg iawn i ymchwil arall rydym wedi'i gwneud. Gyda'i gilydd, cadarnhaodd yr ymgynghoriadau hyn ein hymagwedd integredig at brosiectau treftadaeth sy'n cyflawni buddion i gadwraeth a phobl.

Yn 2008–09, cynyddom gyfranogiad uniongyrchol pobl ifanc yn ein gwaith drwy lansio strategaeth cyfranogiad pobl ifanc. Cynlluniwyd hon i ddod â safbwyntiau ffres i ddatblygiad busnes Cronfa Dreftadaeth y Loteri, ac i adeiladu ar sgiliau pobl ifanc, a dealltwriaeth o'n treftadaeth. Fel rhan o ddatblygiadau Dinas Diwylliant Ewrop yn Lerpwl, ymgymeron hefyd â menter fawr yn cael ei harwain gan bobl ifanc, *Portrait of a Nation*, a oedd yn cynnwys dros 3,000 o bobl ifanc o 17 o ddinasoedd ar draws y DU yn archwilio pwy ydynt, o ble y dônt a'u gobeithion ar gyfer y dyfodol fel oedolion ifanc ym Mhrydain.

Rydym wedi parhau â'n polisi recriwtio agored i'n pwyllgorau rhanbarthol a gwledig, ac yn 2008–09 penodwyd 10 o aelodau pwyllgor newydd, a'u rôl yw gwneud penderfyniadau ar ddyfarniadau hyd at £2 filiwn yn eu hardal. Fodd bynnag, y cyfraniad mwyaf o bell ffordd i gyfranogiad cyhoeddus mewn treftadaeth yw cyfranogiad y miloedd o wirfoddolwyr sy'n arwain, yn rheoli ac yn cyfrannu mewn prosiectau a ariennir gan y Loteri bob blwyddyn.

c) Mynediad a chyfranogiad

"Yr angen i gynyddu mynediad a chyfranogiad i'r rheiny nad ydynt yn elwa ar hyn o bryd o'r cyfleoedd treftadaeth sydd ar gael yn y Deyrnas Unedig."

Mae ein cynllun strategol cyfredol yn ailddatgan ein nod i helpu "mwy o bobl, ac ystod ehangach o bobl, i gymryd rhan weithredol yn eu treftadaeth a gwneud penderfyniadau ynglŷn â'u treftadaeth." Eleni, rydym wedi parhau i ariannu cannoedd o brosiectau nid yn unig sy'n ei gwneud hi'n haws i fynd at ac i fynd o amgylch safleoedd treftadaeth, adeiladau hanesyddol, amgueddfeydd a thirweddau, ond hefyd i ddehongli'r dreftadaeth mewn ffyrdd sy'n diwallu anghenion ystod eang o gynulleidfaoedd. Rydym wedi ariannu llawer o brosiectau sy'n galluogi grwpiau cymunedol, gan gynnwys y rheiny sy'n cynrychioli pobl ag anableddau a phobl o gymunedau pobl dduon, Asiaidd a chymunedau lleiafrifoedd ethnig (BAME), i arwain ar archwilio'u treftadaeth eu hunain ac i weithio gyda sefydliadau treftadaeth i sicrhau y caiff y storïau hyn eu hadlewyrchu'n llawnach i'r cyhoedd. Fel rhan o'n strategaeth newydd, mae ein timau datblygu gwledig a rhanbarthol wedi enwebu grwpiau cymdeithasol blaenoriaeth – er enghraifft, cymunedau BAME yn y de orllewin a phobl o grwpiau economaidd gymdeithasol is yn y gogledd ddwyrain – ac mae'r rhain yn cael cymorth ychwanegol i gael mynediad i'n cyllid.

d) Plant a phobl ifanc

"Yr angen i ysbrydoli plant a phobl ifanc, gan ennyn eu diddordeb a'u cyfranogiad yn y gweithgareddau y mae achos da'r dreftadaeth yn ymwneud â hwy."

Plant a phobl ifanc yw eiriolwyr treftadaeth y dyfodol, ac rydym yn awyddus i annog prosiectau sy'n eu galluogi i gael mewnwelediad a phrofiad newydd. Mae mwyafrif helaeth ein prosiectau yn rai sydd o fudd i blant a phobl ifanc. Yn 2008–09, fe wnaeth prosiectau ysbrydoli plant drwy ddod â threftadaeth i mewn i ysgolion a thrwy gefnogi dysgu y tu allan i'r ystafell

ddosbarth, yn ogystal â datblygu mannau chwarae, a chreu pethau llawn hwyl a diddordeb i deuluoedd eu harchwilio gyda'i gilydd. Mae'r prosiectau hyn wedi darparu gweithgareddau cadarnhaol i bobl ifanc, gan roi rhywbeth i bobl ifanc yn eu harddegau i'w wneud, a chynyddu dyheadau pobl ifanc. Maent hefyd wedi galluogi plant a phobl ifanc feithrin mwy o gyswllt â'r gymuned ehangach, er enghraifft, trwy weithio gyda phobl hŷn i gofnodi hanes eu hardal leol.

Mae ein rhaglen ariannu Gwreiddiau Ifanc wedi'i chynllunio'n benodol ar gyfer pobl ifanc 13 i 25 oed i gymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol a diddorol wrth archwilio treftadaeth. Mae'n rhaid i'r holl brosiectau ganiatáu i bobl ifanc gymryd rôl arwain i ddatblygu a chyflwyno gweithgareddau, a chynnig cyfleoedd i ystod ehangach o bobl ifanc fod yn rhan ohonynt. Ers 2002, rydym wedi gwneud bron i 1,000 o ddyfarniadau Gwreiddiau Ifanc, a gwnaed 90 o'r rheiny yn y flwyddyn ddiwethaf. Roedd y rhain yn cynnwys amrywiaeth helaeth o brosiectau, o bobl ifanc yn eu harddegau yn gwneud ffilm glodwiw am eu stryd yn y ddinas dros y 50 mlynedd diwethaf, i wirfoddolwyr ifanc sy'n gwarchod yr amgylchedd naturiol. Dengys ein gwerthusiad bod y bobl ifanc hyn wedi dangos dealltwriaeth newydd o dreftadaeth a pha mor berthnasol ydyw i'w bywydau. Yn 2008, fel rhan o'n strategaeth cyfranogiad pobl ifanc, rhoesom waith ar brawf i gynnwys pobl ifanc yn y gwaith o arwain y gwerthusiad o'r rhaglen Gwreiddiau Ifanc.

e) Cymunedau

"Yr angen i feithrin mentrau sy'n dod â phobl ynghyd, sy'n cyfoethogi tir y cyhoedd ac yn cryfhau ein cymunedau."

Mae ein golwg o dreftadaeth yn un eang, cynyddol a chynhwysol. Credwn y gall deall, trysori a rhannu ein hanesion amrywiol newid bywydau, dod â phobl ynghyd a darparu sylfaen i gymdeithas hyderus, fodern. Mae ein prosiectau wedi cynnig y cyfle i ystod eang o gymunedau i archwilio'u

treftadaeth a rhannu'r hyn maent yn ei drysori gyda phobl eraill. Mewn llawer o achosion, mae prosiectau wedi galluogi pobl o oedrannau a chefnidiroedd gwahanol i weithio gyda'i gilydd, er enghraifft trwy weithgareddau rhwng cenedlaethau ac ar draws diwylliannau.

Caiff ein cyllid effaith fawr iawn ar y mannau a rennir gan gymunedau, a'r modd y mae pobl yn teimlo am eu hardal leol. Yn ein hymchwil yn 2008, dywedodd hanner y trigolion lleol wrthym fod safleoedd sydd wedi cael cyllid gan Gronfa Treftadaeth y Loteri yn gwneud iddynt deimlo'n falch ac yn helpu i wneud eu hardal yn lle da i fyw. Mewn rhai achosion, mae'r safleoedd hyn yn cael effaith gref ar gydlynid cymunedau hefyd. Er enghraifft, cytunodd 85% o bobl sy'n lleol i Barc Tref Congleton fod y safle'n helpu i ddod â phobl sy'n byw yn yr ardal at ei gilydd; teimlai 76% o drigolion fod Arboretwm Lincoln wedi gwella bywyd i'r gymuned leol. Mae ein rhaglenni Partneriaethau Tirwedd, Menter Treftadaeth Treflun a Pharciau i Bobl bob un ohonynt yn cefnogi adfywio ac yn darparu buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Mae'r rhaglenni hyn hefyd yn cael pobl leol i gyfranogi ac yn annog cymunedau i fod yn rhan o ofalu am fannau gwledig a threfol dros y tymor hir.

f) Gwirfoddolwyr

"Yr angen i gefnogi gwirfoddolwyr, ac annog gweithgarwch gwirfoddoli, yn ein treftadaeth."

Rydym yn annog gwirfoddoli'n weithredol trwy ein nodau strategol, ac mae mwyafrif helaeth y prosiectau a ariannwyd dros y flwyddyn ddiwethaf yn ymwneud â gwirfoddolwyr. Mae hyn yn cynnwys prosiectau'n cael eu harwain gan sefydliadau sy'n cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr, prosiectau sy'n canolbwyntio ar recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr, a phrosiectau lle mae gwirfoddolwyr yn cyfrannu at raglenni ehangach gwarchod treftadaeth a dysgu am dreftadaeth. Rydym hefyd yn annog mwy o amrywiaeth mewn gwirfoddoli, ac yn cefnogi cyfleoedd i bobl ifanc, pobl anabl a

phobl o ystod o gefndiroedd ethnig ac economaidd gymdeithasol i wirfoddoli. Mae gwirfoddoli ymhlith pobl ifanc yn flaenoriaeth i'n rhaglen Gwreiddiau Ifanc, ac mae nifer o brosiectau wedi mynd ati'n benodol i recriwtio pobl ifanc a phobl ddi-waith fel gwirfoddolwyr yn 2008–09.

Rydym yn cefnogi gwirfoddolwyr drwy hyrwyddo a chefnogi arfer da o fewn prosiectau. Mae ein harweiniad a'n proses ymgeisio yn nodi cyngor a disgwyliadau clir ar gyfer rheoli a datblygu gwirfoddolwyr, ac ad-dalu costau. Yn benodol, sicrhawn fod prosiectau'n cynnwys cynlluniau a chyllidebau priodol ar gyfer hyfforddi gwirfoddolwyr. Cyfrannwn yn uniongyrchol hefyd at gydnabod a gwobrwyo gwirfoddolwyr. Yn 2008, fe wnaethom ddathlu gwirfoddolwyr ar draws y Deyrnas Unedig mewn Partneriaeth â Chymdeithas Adeiladu Nationwide. Tynnodd Gwobrau Cymunedol a Threftadaeth Nationwide sylw at gyfraniad mawr iawn gwirfoddolwyr mewn treftadaeth, a straeon calonogol yr wyth enillydd cenedlaethol.

g) Sgiliau

"Yr angen i annog arloesedd a rhagoriaeth, a helpu pobl i ddatblygu'u sgiliau."

Mae helpu pobl i ddatblygu'r sgiliau i ofalu am y diwylliant, y lleoedd a'r wybodaeth yr ydym wedi'u hetifeddu yn ganolog i'r hyn a wnawn. Rydym yn annog ein holl ymgeiswyr yn weithredol i gynnig cyfleoedd i bobl ddysgu sgiliau newydd ac i ddysgu mwy o sgiliau, gan gynnwys sgiliau crefft a chadwraeth traddodiadol, sgiliau bywyd newydd a ddatblygir trwy weithgarwch treftadaeth, a sgiliau sy'n galluogi rheoli asedau a lleoedd treftadaeth yn gynaliadwy. Er enghraifft, yn 2008, rhoesom gyllid i Ymddiriedolaeth Gwarchod Rheilffyrdd Iwerddon i hyfforddi pobl newydd i yrru a rheoli trenau stêm, a chyllid i'r Ymddiriedolaeth Gwarchod Eglwysi i gynnig yr ystod sgiliau i bobl leol sydd eu hangen arnynt i helpu i warchod Eglwys yr Holl Eneidiau yn Bolton, ac i'w hyrwyddo a'i rheoli fel man cymunedol newydd.

Mae cynyddu sgiliau staff a gwirfoddolwyr yn un o nodau penodol y rhan fwyaf o'n rhaglenni sydd wedi'u targedu a ail-lansiwyd yn 2008, gan gynnwys Parciau i Bobl, Partneriaethau Tirwedd, Menter Treftadaeth Treflun a Gwreiddiau Ifanc. Dangosodd ein hadroddiad gwerthuso o'r rhaglen Gwreiddiau Ifanc yn 2008 ganlyniadau dramatig o ran gwella sgiliau treftadaeth a sgiliau trosglwyddadwy: fe wnaeth 79% o'r grantïon ddweud mai sgiliau eithaf gwael neu sgiliau gwael a oedd gan y bobl ifanc ar ddechrau'r prosiect; erbyn y diwedd, roedd sgiliau'r bobl ifanc wedi datblygu'n sylweddol, ac adroddodd 92% o'r grantïon bod eu sgiliau'n dda neu'n rhagorol. Mae ein rhaglen Bwrsariaethau Hyfforddi, sydd wedi buddsoddi £7miliwn mewn cynlluniau sy'n darparu hyfforddiant mewn swydd ac achrediad, wedi hyfforddi dros 100 o bobl eleni mewn sgiliau mor amrywiol â thorri brwyn a chadwraeth tecstilau.

h) Gwerth cyhoeddus

"Yr angen i sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu ar gyfer prosiectau sy'n hyrwyddo gwerth cyhoeddus ac nad elw preifat yw eu bwriad pennaf."

Mae gennym ymagwedd benodol, integredig at gyllid y Loteri, sy'n seiliedig ar yr hyn y mae pobl yn ei drysori, ac rydym ni'n buddsoddi yn nhreftadaeth y DU dros yr hirdymor. Mae ein hasesiad o geisiadau yn ystyried y buddion y bydd prosiectau'n eu creu ar gyfer treftadaeth a phobl, a'u heffeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach. Anogwn ymgeiswyr i ganolbwyntio ar y gwahaniaeth y maent yn disgwyl i'n cyllid ei wneud, fel a ddisgrifir yn y canlyniadau yr ydym wedi'u diffinio ar gyfer pob un o'n rhaglenni.

Rhown flaenoriaeth i sefydliadau di-elw ac i bartneriaethau sy'n cael eu harwain gan sefydliadau di-elw. Er 1994, mae 39% o'n cyllid yn ôl gwerth wedi mynd i sefydliadau cymunedol a gwirfoddol (sy'n codi i 47% pan gynhwysir sefydliadau crefyddol hefyd), ac mae awdurdodau lleol wedi cael 35% o werth dyfarniadau. Cyrff eraill y sector cyhoeddus yw'r gweddill. Canran fach iawn

o'r cyfanswm yw'r dyfarniadau a allai roi budd i berchnogion preifat treftadaeth, ac maent yn gyfyngedig i elfennau o gynlluniau ardal lle mai corff cyhoeddus yw prif dderbynnydd y grant, a grantiau bach a wneir o dan ein rhaglen Eich Treftadaeth ar gyfer gweithgareddau sy'n bodloni ein nodau cyfranogiad a'n nodau dysgu

i) Datblygu cynaliadwy

"Yr angen i hyrwyddo amcanion datblygu cynaliadwy."

Yn ein cynllun strategol cyfredol, rydym wedi cryfhau'n sylweddol ein ffocws ar effaith amgylcheddol yn ein proses asesu ac ar ddefnyddio adnoddau mewn modd cynaliadwy. Gwnaethpwyd penderfyniadau ar y ceisiadau cyntaf a aseswyd yn erbyn y meini prawf newydd ym mis Rhagfyr 2008. Mae ein harweiniad *Cynllunio prosiectau treftadaeth gwyrddach* yn dweud beth a ddisgwyliwn i brosiectau cyfalaf allu ei gyflawni ar ystod o ffactorau, gan gynnwys effeithiolrwydd ynni, ynni adnewyddadwy, dŵr, deunyddiau adeiladu, gwastraff adeiladu, pridd (gan gynnwys mawn), pren, bioamrywiaeth a thrafnidiaeth ymwelwyr. Mae ein disgwyliadau'n gymesur â maint a graddfa prosiectau a grantiau y gofynnir amdanynt, a byddwn yn adolygu ac yn diwygio'r arweiniad dros amser yng ngolau profiad ac arfer sy'n dod i'r amlwg yn y sector.

j) Amddifadedd economaidd a chymdeithasol

"Dymunoldeb lleihau amddifadedd economaidd a chymdeithasol a sicrhau bod gan bob ardal o'r Deyrnas Unedig fynediad i'r arian a ddosberthir"

Mae tua 44% o gyllid Cronfa Dreftadaeth y Loteri wedi'i ymrwymo yn yr ardaloedd awdurdod lleol mwyaf difreintiedig (yn seiliedig ar y mynegeion mwyaf diweddar o amddifadedd lluosog ar gyfer Lloegr, Cymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon). Yn nodweddiadol, dengys ein hymchwyl fod prosiectau cyfalaf mewn ardaloedd preswyl yn cael effaith ar ansawdd bywyd neu les yn lleol, i ryw un o bob tri o drigolion lleol.

Mae hanner y prosiectau cyfalaf mawr (grant dros £2filiwn) yn cael effeithiau adfywio economaidd trwy greu cyflogaeth, ar gymhareb gyfartalog grant Cronfa Dreftadaeth y Loteri fesul swydd o £140,000. Hefyd, gellir dangos bod rhyw 40% o brosiectau wedi creu buddion cymunedol ehangach fel gwell cydlynid a chynhwysiad cymdeithasol.

Mae gennym dimau datblygu yn Yr Alban, Cymru, Gogledd Iwerddon ac yn holl ranbarthau Lloegr i annog ceisiadau o ansawdd da o ardaloedd neu grwpiau cymdeithasol nad ydynt wedi'u cynrychioli gystal yn ein cyllido hyd yma. Ar gyfer y cynllun strategol cyfredol, rydym wedi nodi blaenoriaethau daearyddol a chymdeithasol newydd fel ffocws ein gwaith datblygu. O ganlyniad i'n gwaith datblygu er 2002, nifer yr awdurdodau lleol sydd wedi cael llai na 25% o werth dyfarniadau cyfartalog y pen yn y DU erbyn hyn yw 74 (17%), a nifer yr awdurdodau lleol sy'n cael llai na 25% o ddyfarniadau y pen yn y DU yw 8 (2%). Yn 2008–09, aeth 38% o'n dyfarniadau i sefydliadau neu grwpiau sy'n derbyn grant gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri am y tro cyntaf.

k) Gweithio ar y cyd

"Dymunoldeb gweithio ar y cyd gyda sefydliadau eraill, gan gynnwys dosbarthwyr eraill, os yw hyn yn ffordd effeithiol o gyflawni elfennau o strategaeth y Gronfa."

Drwy Fforwm y Loteri ac Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol, rydym yn parhau i weithio gyda dosbarthwyr eraill y Loteri ar fentrau ar y cyd ac i sicrhau cydlynu gweithgareddau'n fanwl. Ers 2006 rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â'r Gronfa Loteri Fawr i gyflwyno'r rhaglen Parciau i Bobl yn Lloegr, a gweithredwn gynllun ar y cyd ar gyfer ariannu mannau addoli gydag English Heritage yn Lloegr.

Yn 2008, cydweithiom gyda Chymdeithas Adeiladu Nationwide ar Wobrau Cymunedol a Threftadaeth Nationwide, a gydnabu cyfraniad gwirfoddolwyr a grwpiau gwirfoddol at brosiectau treftadaeth.

Gweithiom gyda'r elusen GreenSpace a'r Gronfa Loteri Fawr ar 'Cardiau Post o'r Parc', sef ymgyrch cenedlaethol sy'n dathlu ein buddsoddiad mewn parciau cyhoeddus trwy gystadleuaeth ac arddangosfa ffotograffig. Yn 2008, cyflwynwyd ffotograffau gan dros 700 o bobl, ac amcangyfrifir bod yr ymgyrch wedi cyrraedd o leiaf naw miliwn o bobl drwy sylw yn y cyfryngau.

Ym mis Mawrth 2009, fe wnaethom dynnu allan o'r rhaglen ar y cyd â dosbarthwyr eraill, Arian i Bawb, ar ôl ail-lansio ein dwy raglen grantiau bach (Eich Treftadaeth a Gwreiddiau Ifanc), gyda throthwy grant is o £3,000, a symleiddwyd deunyddiau a phrosesau ymgeisio er mwyn diwallu'n well anghenion grwpiau gwirfoddol sy'n ymgeisio am grantiau llai. Cymerodd yr holl ddosbarthwyr ran mewn hyrwyddiad ar y cyd ar gyfer rhaglenni grantiau llai'r Loteri er mwyn helpu grwpiau gwirfoddol a grwpiau cymunedol i ddod o hyd i'r rhaglen iawn ar gyfer eu prosiect.

l) Cydnabyddiaeth

"Yr angen i gynnwys amod ym mhob grant i gydnabod cyllid y Loteri, gan ddefnyddio brand cyffredin y Loteri."

Credwn fod derbyn grant y Loteri yn rhywbeth i'w ddathlu, ac mae'n bwysig cynyddu ymwybyddiaeth o fuddion cyllid y Loteri i dreftadaeth. Rydym yn pennu gofyniad bod pob ymgeisydd yn cydnabod ein grantiau'n briodol yn ystod cyfnod datblygu'u prosiect, wrth gyflwyno'r prosiect, ac ar ôl cwblhau'r prosiect. Cynhyrchwn yr arweiniad *Sut i gydnabod eich grant*, sy'n rhan o'n telerau grant safonol. Rhown ddewis o ddeunyddiau cydnabod i'r grantion, mewn ystod o fformatau, a gwiriwn fod cydnabyddiaeth yn cael ei rhoi drwy ein prosesau monitro a chydymffurfio â chontractau. O 2009, byddwn yn cynnal ymweliadau cyn-cwblhau â sampl o brosiectau ar draws y DU, er mwyn cadarnhau bod cydnabyddiaeth addas i gyllid y Loteri yn cael ei rhoi yn ei le.

m) Cyllid partneriaeth

"Yr angen i brosiectau gael elfen o gyllid partneriaeth, neu gyfraniad o fath arall o ffynonellau eraill, i'r graddau bod hyn yn rhesymol i'w gyflawni ar gyfer mathau gwahanol o ymgeiswyr mewn ardaloedd penodol."

Mae angen i bob un o'n rhaglenni gael cyfraniad gan yr ymgeisydd mewn arian parod neu gael cyfraniad o fath arall er mwyn dangos ei ymrwymiad i'r prosiect ac i gynyddu gwerth yr arian a gyflawnir drwy ein grantiau. Er 1994, rydym wedi gwneud dyfarniadau â chyfanswm o £4.4biliwn, sydd wedi denu dros £3biliwn mewn cyfraniadau cyllid partneriaeth.

Mabwysiadwn ymagwedd gymesur, gan ofyn am leiafswm o 25% o gyllid partneriaeth ar gyfer grantiau dros £1filiwn, a 10% ar gyfer grantiau rhwng £50,000 ac £1filiwn. Ar gyfer dyfarniadau llai na £50,000, caniatawn gyfraniadau o fath arall neu gyfraniadau amser gwirfoddolwyr, lle nad yw'r ymgeiswyr y gallu darparu swm o arian.

n) Penderfyniadau

"Yr angen (a) i arian a ddosberthir gael ei gymhwyso i brosiectau at ddiben cyfyngedig i amser penodol yn unig, (b) i sicrhau bod y wybodaeth angenrheidiol a chyngor arbenigol ganddynt i wneud penderfyniadau am bob cais, a (c) i ymgeiswyr ddangos hyfywedd ariannol prosiectau."

a) Mae'r prosiectau yr ydym yn eu cefnogi yn rhai penodol ac yn gyfyngedig i amser. Cyfyngwn ein cymorth i uchafswm o bum mlynedd ar gyfer prosiectau sy'n cynnwys gweithgareddau. Mae tri-chwarter y prosiectau'n cael eu cwblhau ar amser.

b) Ceisiwn wybodaeth gan ymgeiswyr am y graddau y mae'r prosiectau a gyflwynant yn bodloni ein blaenoriaethau strategol, ynghyd â gwybodaeth bellach am y ffordd y caiff y prosiect ei gyflwyno er mwyn i isgiau a chyfleoedd gael eu cydbwysu'n llawn. Yn 2008, cyflwynwyd model busnes newydd gennym ar gyfer ein prif raglen grantiau cyffredinol, Grantiau

Treftadaeth (grantiau dros £50,000), er mwyn ymateb i lefelau galw uchel ac i leihau faint o waith y mae angen i ymgeiswyr ei wneud cyn cael penderfyniad cychwynnol gennym. Yn dilyn pas rownd gyntaf llwyddiannus, a chyfnod datblygu, y gallwn gynnig grant datblygu a/neu gymorth mentor ar ei gyfer, caiff cynigion llawn eu hasesu yn yr ail rownd cyn y gwneir y penderfyniad i ddyfarnu. Gall yr asesiad hwn gynnwys cyngor arbenigol ar agweddau allweddol ar y cais a chyfraniad gan ein Panel Arbenigol os bydd angen.

c) Gofynnwn i ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth i ni i ddangos hyfywedd ariannol eu prosiect, wedi'i ddadansoddi yn gostau cyfalaf, gweithgarwch a chostau eraill, ac sy'n dangos pa gyfraniad y maent yn cynnig ei wneud o'u hadnoddau eu hunain neu o grantiau neu roddion o ffynonellau eraill. Gofynnwn am ragolwg lif arian, ac, ar gyfer prosiectau mwy, rhagolygon incwm a gwariant am 10 mlynedd, gan ddangos sut mae'r ymgeisydd yn cynllunio i gynnal y prosiect yn y tymor hir. Cyhoeddwn arweiniad ar hyn, ac arweiniad ar arfarniad ariannol ac arfarniad marchnad ar gyfer prosiectau mwy o ran maint a mwy cymhleth.

o) Cynllunio a rheoli prosiectau

"Lle ceisir cyllid cyfalaf, yr angen (a) am gynllun busnes clir sy'n dangos sut fydd unrhyw gostau rhedeg a chostau cynnal a chadw'n cael eu talu dros gyfnod rhesymol, a (b) i sicrhau bod yr arfarnu a'r rheoli ar gyfer prif brosiectau yn adlewyrchu Safonau Adolygiad Gateway Swyddfa Masnach y Llywodraeth."

a) Mae'r ffurflenni cais diwygiedig ar gyfer ein rhaglen Grantiau Treftadaeth yn gofyn i ymgeiswyr osod eu ceisiadau ail rownd mewn fformat cynllun busnes, gyda gwybodaeth ategol yn cael ei chynnwys mewn cynllun gweithgarwch, rhagolygon llif arian a thabl incwm a gwariant.

Ar gyfer grantiau dros £1filiwn, gofynnwn am arfarniad ariannol ac arfarniad marchnad llawn.

Gofynnwn i brosiectau cadwraeth gynnwys cynlluniau cadarn ar gyfer cynnal treftadaeth yn y tymor hir er mwyn sicrhau bod ganddo ddyfodol hyfyw, ac i ddiogelu ein buddsoddiad trwy reolaeth hirdymor well. Ar gyfer prosiectau sy'n golygu gwerth dros £200,000 o waith cyfalaf, gofynnwn am Gynllun Rheoli a Chynnal a Chadw sy'n nodi manylion sut fydd yr ymgeisydd yn talu'r costau ychwanegol ar ôl cwblhau ei brosiect, a byddwn yn cyhoeddi arweiniad ar sut i gynhyrchu hyn. O dan ein rhaglen Parciau i Bobl, caniatawn i ymgeiswyr gynnwys gwerth 10 mlynedd o gostau cynnal a chadw ychwanegol sy'n deillio o'u prosiectau fel rhan o'u cyfraniad cyllid partneriaeth.

- b) Gofynnwn i bob ymgeisydd ddangos y bydd eu prosiectau'n cael eu rheoli'n dda, ac y byddant yn bodloni safonau perthnasol yr ystyrir eu bod yn arfer da ar gyfer y maes y rhoddwyd y grant ar ei gyfer. Ar gyfer prosiectau cyfalaf cynhwyswn bwyntiau adolygu ffurfiol yn ein prosesau asesu a monitro (sy'n cyfateb i gyfnodau RIBA) ac mae'r holl brosiectau cenedlaethol yn mabwysiadu Safonau Adolygu Swyddfa Masnach y Llywodraeth. Defnyddiwn fonitoriaid allanol ar bob prif brosiect er mwyn sicrhau bod prosiectau'n cyflawni'r dibenion cymeradwy yn unol â'r contract, bod y risgiau i Gronfa Dreftadaeth y Loteri yn ddealladwy ac yn cael eu rheoli, bod arfer gorau'n cael ei gyflawni yn yr holl feysydd critigol, a bod adrodd a rheolaeth ariannol yn gadarn ac yn dryloyw.

Cyfarwyddiadau polisi yng Nghymru

Mae cyfarwyddyd polisi B yn pennu gofyniad bod Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn ystyried 'yr angen i hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg ac adlewyrchu natur ddwyieithog Cymru, gan gynnwys egwyddor cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yng ngweithgareddau'r Gronfa yng Nghymru, yn unol â'r arweiniad a nodir yng nghyhoeddiad Bwrdd yr Iaith Gymraeg*, ac a gaiff ei fonitro'n unol â gweithdrefnau y cytunwyd arnynt'.

Mae ein Cynllun Iaith Gymraeg yn nodi ymrwymiad Cronfa Dreftadaeth y Loteri i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gyflwyno gwasanaethau, ac i sicrhau bod polisïau a mentrau yn bodloni'r safonau a nodir yn y cynllun. Mae hyn yn cwmpasu gweithredoedd gweinyddol ar gyfer darparu gwasanaeth cyhoeddus dwyieithog yng Nghymru, wyneb cyhoeddus y sefydliad, gan gynnwys hunaniaeth gorfforaethol, ffurflenni cais, nodiadau arweiniad a'r wefan, y wasg a gweithgarwch marchnata, asesu a monitro ceisiadau, staffio a recriwtio, ac ymarferiadau ymgynghori ac ymchwil. Rydym yn monitro ein perfformiad yn flynyddol drwy ein hymrwymiad i Gynllun Cydraddoldeb, ac yn 2008 cynhyrchwyd arweiniad newydd gennym i gynorthwyo ymgeiswyr yng Nghymru i ddatblygu ymagweddau dwyieithog, *Ymgorffori'r Gymraeg yn eich prosiect*.

Cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd i Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol o dan Adran 26(1) a (2) Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993

Trwy hyn, mae Gweinidogion Cymru, wrth arfer eu pwerau o dan adran 26(2) Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993, fel y'u trosglwyddwyd gan Orchymyn Cynulliad Genedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, ac ar ôl ymgynghori ag Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ('y Gronfa')

yn unol ag adran 26(5), yn rhoi'r cyfarwyddiadau canlynol i'r Gronfa:

1. Yn y Cyfarwyddiadau hyn, mae unrhyw gyfeiriad at adran yn gyfeiriad at adran benodol yn Neddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993, fel y'i diwygiwyd.

Cyfarwyddiadau mewn Perthynas â Chymru

2. Wrth arfer pob un o'i swyddogaethau, bydd y Gronfa yn ystyried y materion canlynol wrth bennu'r unigolion y gallant ddyrannu grantiau neu fenthyciadau iddynt, at ba ddibenion y gallant ddyrannu grantiau neu fenthyciadau ar eu cyfer, a'r telerau ac amodau sy'n gysylltiedig â'r grantiau neu'r benthyciadau a ddyrennir, yn ogystal â'r broses a ddefnyddir i bennu pa daliadau i'w gwneud wrth ddosbarthu unrhyw arian o dan adran 25(1):

- a) Yr angen i ystyried buddiannau Cymru gyfan, a buddiannau gwahanol rannau o Gymru, gan gymryd i ystyriaeth amrywiol batrymau demograffig ac amddifadedd y rhannau gwahanol o Gymru, a dymunoldeb annog cyrff gwasanaeth cyhoeddus i gydweithio lle bydd yn arwain at ganlyniadau gwell i bobl a threftadaeth.
- b) Yr angen i hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg ac adlewyrchu natur ddwyieithog Cymru, gan gynnwys egwyddor cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yng ngweithgareddau'r Gronfa yng Nghymru, yn unol â'r arweiniad a nodir yng nghyhoeddiad Bwrdd yr Iaith Gymraeg*, ac a gaiff ei fonitro yn unol â gweithdrefnau y cytunwyd arnynt.

- c) Yr angen i sicrhau dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, a chydweithio'n agos â phartneriaid priodol er budd cymunedau a threftadaeth ledled Cymru, lle bo hwn yn ddull effeithiol o gyflawni strategaeth y Gronfa.
- d) Yr angen i annog pobl i gadw, gwarchod, cyflwyno, hyrwyddo a dehongli pob agwedd ar dreftadaeth Cymru.
- e) Yr angen i annog cynaliadwyedd ariannol asedau treftadaeth Cymru.
- f) Yr angen i roi cyfle i bobl, yn arbennig pobl ifanc ac aelodau difreintiedig cymdeithas, i ennill y sgiliau sy'n ofynnol i gadw a gwarchod treftadaeth Cymru.
- g) Yr angen i annog defnyddio safonau proffesiynol priodol ym mhob prosiect.
- h) Lle bo'n briodol, yr angen i roi cyfle i bobl o bob oedran a chefnidir, yn arbennig plant a phobl ifanc ac aelodau difreintiedig cymdeithas, i gael mynediad at dreftadaeth amrywiol Cymru, i ddysgu amdani, ei mwynhau, a'i hyrwyddo drwy hynny.

* Dyfarnu Grantiau, Benthyciadau a Nawdd: Materion yn ymwneud â'r Gymraeg, Mawrth 2007.

Perfformiad Corfforaethol

Targedau lefel gwasanaeth hyd at 31 Mawrth 2009

Dangosyddion lefel gwasanaeth	12 mis hyd at Mawrth 2009	12 mis hyd at Mawrth 2008	12 mis hyd at Mawrth 2007
1 Bydd y penderfyniad ar gael yn cael ei wneud fel arfer:			
Grantiau Treftadaeth			
• rownd gyntaf – yn y cyfarfod nesaf sydd ar gael 3 mis ar ôl cais (targed blaenorol)	3.1 mis	5.1 mis (6 mis)	5.0 mis (6 mis)
• ail rownd – yn y cyfarfod nesaf sydd ar gael 3 mis ar ôl cais (targed blaenorol)	1.8 mis	4.4 mis (4 mis)	4.2 mis (4 mis)
Parciau i Bobl			
• cyfnod 1 – ymhen 6 mis calendr	5.6 mis	5.0 mis	4.4 mis
• cyfnod 2 – ymhen 6 mis calendr	5.1 mis	4.7 mis	3.9 mi
Partneriaethau Tirwedd			
• rownd gyntaf – ymhen 5 mis calendr (targed blaenorol)	6.7 mis	6.3 mis (6 mis)	5.8 mis (6 mis)
• ail rownd – ymhen 5 mis calendr (targed blaenorol)	4.9 mis	4.8 mis (4 mis)	4.0 mis (4 mis)
Grantiau Atgyweirio ar gyfer Mannau Addoli			
• ymhen 6 mis calendr	5.4 mis	5.4 mis	5.2 mi
Menter Treftadaeth Treflun			
• rownd gyntaf – ymhen 5 mis calendr (targed blaenorol)	amherthnasol	5.0 mis (6 mis)	5.0 mis (6 mis)
• ail rownd – ymhen 5 mis calendr	4.8 mis	amherthnasol	amherthnasol
Eich Treftadaeth a Gwreiddiau Ifanc			
• ymhen 10 wythnos (targed blaenorol)	2 mis	2.5 mis (3 mis)	2.7 mis (3 mis)
2 Rhwir penderfyniadau ar wefan Cronfa Dreftadaeth y Loteri ymhen 10 diwrnod gwaith o'r cyfarfod	Diweddarwyd ymhen 10.38 diwrnod ar gyfartaledd	Diweddarwyd ymhen 10 diwrnod ar gyfartaledd	Diweddarwyd ymhen 10 diwrnod ar gyfartaledd
3 Gwneir taliadau grant i'r ymgeisydd, ar gyfartaledd, ymhen 15 diwrnod gwaith o gael y cais am daliad	Dim gwybodaeth ar gael	Cyfartaledd 6 diwrnod	Cyfartaledd 6 diwrnod
4 Bydd arolwg blynyddol o ymgeiswyr grant yn dangos cyfradd foddhad 75% â gwasanaeth Cronfa Dreftadaeth y Loteri (ar gyfer asesu, ac 80% (ar gyfer monitro)	Asesiad – 80% Monitro – 84%	Asesiad – 82% Monitro – 84%	Asesiad – 80% Monitro – 84%

Dangosyddion lefel gwasanaeth

Mae dangosyddion perfformiad cwsmeriaid yn dangos blwyddyn arall o berfformiad da yn y rhan fwyaf o feysydd.

Dangosydd 1

Ar 1 Ebrill 2008, cyhoeddodd Cronfa Dreftadaeth y Loteri ei thrydydd Cynllun Strategol, a gyflwynodd brosesau a gweithdrefnau newydd. Daeth y prosesau hynny â gostyngiadau yn eu sgîl o ran yr amser a gymerwn i roi penderfyniad i ymgeisydd ar gyfer y rhan fwyaf o'n rhaglenni grant. Lle newidiwyd y targed ym mis Ebrill 2008, dangosir y targed a oedd yn gymwys yn y blynyddoedd blaenorol mewn cromfachau.

Rydym wedi bodloni amserau prosesu cyhoeddedig, ac eithrio Partneriaethau Tirwedd, lle gwnaethpwyd y penderfyniad ar gyfer cyfarfod 21 diwrnod ar ôl y targed 6 mis.

Wrth drosglwyddo i'n trydydd Cynllun Strategol, cafodd penderfyniadau ar geisiadau o dan y Fenter Treftadaeth Tirwedd eu symud i fis Ebrill 2009: ni wnaed unrhyw benderfyniadau felly yn y flwyddyn 1 Ebrill 2008 i 31 Mawrth 2009.

Dangosydd 2

Fe wnaethom fethu ein targed o ychydig i roi penderfyniadau ar ein gwefan ymhen 10 diwrnod.

Dangosydd 3

Roedd y newidiadau a gyflwynwyd gyda'n trydydd Cynllun Strategol yn gofyn am newidiadau i'r systemau TG sy'n sylfaen i weithdrefnau Cronfa Dreftadaeth y Loteri. Fe wnaethom flaenoriaethau'r newidiadau a oedd bwysicaf i wasanaeth cwsmeriaid, ac mae hynny'n golygu nad yw rhai o'r adroddiadau rheolwyr wedi'u cynhyrchu eto, gan gynnwys y mesur o'r amser a gymerir i wneud taliadau grant. Nid oes lle i gredu, fodd bynnag, ein bod yn cymryd mwy na 6 diwrnod i wneud taliadau.

Dangosydd 4

Mae lefelau boddhad cwsmeriaid â'n gwaith asesu a monitro, yr ymchwiliwyd iddynt drwy arolygon ffôn a gynhaliwyd yn annibynnol, yn parhau'n uchel iawn. Mae boddhad ymgeiswyr, yn rhai llwyddiannus ac aflwyddiannus, wedi gostwng 2% i'r un lefel a gyflawnwyd yn 2007, tra bod boddhad â'n gwasanaeth ar ôl i ni wneud dyfarniad wedi parhau'n gyson ar 84%.

Cynnydd ar brosiectau dros £5miliwn

Mae'r tabl canlynol yn dangos y cynnydd ar brosiectau heb eu cwblhau sy'n cynnwys £5miliwn neu fwy o arian Loteri.

Teitl y prosiect	Cyfanswm cost y prosiect	Grant a ddyfarnwyd	% y grant hyd yma	Adroddiad safle diweddaraf
Acquisition of John Murray Archive	£35,207,000	£17,700,000	98.97%	Caffaelwyd yr archif yn Chwefror 2006. Agorwyd yr arddangosfa ym Mehefin 2007, a gwnaed ychwanegiadau pellach i'r arddangosfa yn haf 2008.
Air Space, Duxford	£25,250,000	£10,500,000	100%	Prosiect wedi'i gwblhau. Talwyd grant llawn.
Ancoats, Murray's Mills	£11,800,000	£7,164,000	100%	Prosiect wedi'i gwblhau. Talwyd grant llawn.
Ashmolean Plan	£45,189,000	£15,000,000	70.32%	Amgueddfa ar gau ar gyfer adnewyddu, progressing. Gwaith adeiladu'n symud ymlaen. I'w hail-agor yn Nhachwedd 2009.
At Close Quarters – The Tank Museum	£14,814,400	£9,651,000	88.17%	Yr Arena wedi'i chwblhau ym Mai 2008 a phrif adeilad yr amgueddfa wedi'i gwblhau. Gwaith gosod yr arddangosfa wrthi'n cael ei gwblhau. Agor ym Mehefin 2009.
Birkenhead Park	£11,381,645	£7,423,000	100%	Prosiect wedi'i gwblhau. Talwyd grant llawn.
Birmingham Town Hall	£24,540,076	£13,500,000	100%	Prosiect wedi'i gwblhau. Talwyd grant llawn.
Burns Birthplace: An International Museum	£14,000,000	£5,827,000	0%	Dyfarnwyd grant ym Mehefin 2008. Contract wedi'i gytuno. Gwaith yn dechrau ar y safle.
Buxton Crescent and Spa	£33,180,338	£12,533,000	0%	Trafodaethau ar gontract CDL yn dal i fynd ymlaen.
Castell Caerdydd	£7,782,940	£6,702,500	90%	Disgwyllir cwblhau'r prosiect llawn yn yr haf 2009.
Chiswick House and Garden	£11,667,500	£7,619,000	20.55%	Prosiect ar y safle a gwaith yn symud ymlaen. Disgwyllir cwblhau yn yr haf 2010.
Christ Church Spitalfields, Tower Hamlets, London	£9,446,182	£5,984,500	99.65%	Prosiect wedi'i gwblhau. Taliad grant olaf wedi'i wneud.
Covent Garden Project, London Transport Museum	£17,060,403	£8,608,000	100%	Prosiect wedi'i gwblhau. Talwyd grant llawn.
Creating the Museum of Bristol – The people's story	£19,201,358	£10,277,000	0%	Dyfarnwyd grant llawn yng Ngorffennaf 2006. Cynhaliwyd seremoni gosod carreg gopa yn Nhachwedd 2008. Gwaith yn symud ymlaen – disgwyllir i daliadau grant ddechrau yn haf 2009.
